

ECO'R WYDDFA

Rhif 190

MAI 1993

Pris 25c

CYFARFOD BLYNYDDOL YR ECO

NOS FERCHER
MEHEFIN 9fed
am 7.00 p.m.

Yn Ysgol Brynrefail

Croeso i bawb i'r
cyfarfod pwysig hwn.

FFŴL EBRILL

Gawsoch chi'ch twyllo gan stori flaen rhifyn diwethaf yr Eco? Stori Ffŵl Ebrill oedd honno am wahardd traffig o Stryd Fawr Llanberis wrth gwrs. Doedd dim gwir yn y stori, ond fe gafwyd yn ei sgîl sawl cynllun diddorol i ddelio â phroblemau parcio yn y pentref! Ac roedd o leiaf un papur newydd arall wedi credu ein bod ni wedi cael sgŵp, a'i ohebydd wedi methu'n lân â chael cadarnhad i'r stori gan Gyngor Arfon! Diolch arbennig i'r Cyng. Noel Davies am gael defnyddio ei enw yn y stori ffug. Gobeithio nad oedd ei ffôn yn rhy boeth!

THEATR LLANBERIS

Mae gan Llanberis ei theatr newydd ei hunan ers dechrau mis Ebrill. Agorwyd Theatr Fach Gorffwysfa yn swyddogol nos Lun, Ebrill 5ed, gan Mr Dafydd Wigley, yr Aelod Seneddol.

Cwmni Drama Llanberis sydd wedi mentro i sicrhau'r Theatr yn gartref iddo ei hun. Fel yr awgryma'r enw, hen festri capel Gorffwysfa yw'r adeilad. Fe'i prynwyd gan y Cwmni Drama wedi i'r capel gael ei gau a'i ddymchwel, a threuliwyd y blynyddoedd diwethaf yn addasu'r festri yn Theatr at ddefnydd y Cwmni. Codwyd llwyfan, gosodwyd toiledau a drysau tân, ac atgyweiriwyd yr adeilad nes bod yno bellach theatr fechan hwylus a fydd yn ganolfan i'r Cwmni Drama gweithgar. Mae'r holl waith wedi costio £30,000, a llwyddwyd i glirio'r ddyled bron i gyd erbyn hyn. Derbyniwyd grantiau gan Gyngor Gwynedd, Awdurdod Datblygu Cymru a Phwyllgor Tywysog Cymru. Y Parchg John Owen, Rhuthun, cyn-weinidog capel Gorffwysfa a sylfaenydd y Cwmni Drama presennol, oedd yn llywyddu'r noson agoriadol, ac estynwyd croeso arbennig i Lywydd Anrhydeddus y Cwmni, Mrs Katie Williams (Derwen Deg). Dadorchuddiwyd carreg i nodi'r agoriad swyddogol gan yr Aelod Seneddol. Cafwyd perfformiad o'r gomedi 'Awel Dro' gan y Cwmni y



Dafydd Wigley yn agor y Theatr Fach yng nghwmni'r Parchg John Owen a Mrs Katie Williams.


Llun: ISLWYN JONES

noson honno a'r noson ddilynol. Dymunwn yn dda i'r Cwmni wrth ei longyfarch am fentro'n llwyddiannus.

Ceir rhagor o'r hanes y tu mewn i'r rhifyn hwn.



Mewn cyfarfod arbennig cyflwynwyd siec, am £1,900, i'r Dr Jim Davies, Cadeirydd Apêl Haematoleg a Chymorth Canser Gwynedd. Yn y llun fe welir, o'r chwith i'r dde: Rhian Hughes, Ysgrifennydd Cantorion Elidir; Eryl Griffiths, Ysgrifennydd Côr Bro Dyfnan; Dr. Jim Davies; Robin Jones, yr Arweinydd; y Parchg W. R. Williams, Llywydd Cantorion Elidir.



Y TŶ YN LLAWN

Profiad i'w drysori am byth oedd gweld Capel Engedi Caernarfon yn orlawn ar nos Fercher, 17 Ebrill. Oddeutu mil o bobol wedi dod ynghyd i wrando a bod yn rhan o oedfa'r 'Croeshoeliad' o waith John Stainer. Pryd y gwelwyd capel o'r maint hwn yn orlawn o'r blaen tybed? Roedd y canu cynulleidfaoel ar ddechrau ac i ddiweddu'r oedfa yn wefreiddiol.

Yr unawdwy'r oedd Iwan Parry (bariton) a John Eifion (tenor), a'r Parchedig Phillip Barnett oedd wrth yr organ. Yr Arweinydd oedd Robin Jones, Bethel, a llywyddwyd yr oedfa gan R. Alun Evans.

Y corau a gymerodd ran oedd Côr Bro Dyfnan, Môn, côr-feistres Mrs Magdalen Jones; a Chantorion Elidir, Bethel, côr-feistr Robin Jones. Bu cydweithio hapus iawn rhwng y ddau gôr wrth ddysgu'r gwaith, gan gyfarfod mewn ymarferion unedig ym Mhentraeth a Chapel y Graig, Penrhosgarnedd, ac fe fu'n gymdeithas glôs a chynnes a'r gobaith bellach, wedi'r llwyddiant, yw y bydd cydweithio eto rhwng y ddau gôr yn y dyfodol.

Gwaith pur ddieithr yw'r 'Crucifixion' gan Stainer i'r Cymry, yn enwedig felly i glywed y gwaith yn cael ei ganu yn Gymraeg, ac fe fu Dafydd Wyn Jones, Aberteifi, yn fodlon iawn i gyfieithu'r gwaith o'r newydd ar gyfer y perfformiad.

Trefnwyd i elw ariannol yr oedfa

fynd i Gronfa Haematoleg a Chymorth Canser Gwynedd a chaed noson arbennig i gyflwyno siec i'r Dr Jim Davies, Cadeirydd yr Apêl. Roedd y siec yn un deilwng iawn am y swm o £1,900.

Dymunwn ddiolch i gynifer o bobol a wnaeth y noson yn un mor gofiadwy a llwyddiannus. Diolchwn felly i'r canlynol: côr-feistri a swyddogion y ddau gôr am eu gweledigaeth ac am eu gwaith mawr yn trefnu'r cyfan; i gyfeilyddion y ddau gôr am eu dyfalbarhad yn yr ymarferion; i swyddogion Capel y Graig am eu croeso ar nosweithiau ymarfer; i swyddogion ac aelodau Capel Engedi am eu caredigrwydd yn ystod yr ymarferion ac ar noson yr oedfa ac hefyd am eu cymorth ymarferol at wneud y noson yn un mor lwyddiannus.

Mae'n diolch yn fawr i'r rhai a gefnogodd yr oedfa trwy eu presenoldeb gan sicrhau i'r oedfa fod yn un fendithiol ac yn brofiad a bery am beth amser yn y cof.

ECO'R WYDDFA

RHIF 190
MAI 1993

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(670115)

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWYR

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (674669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

Gareth Williams, Angorfa,
Rhes Rhythallt, Llanrug (673683)

Tony Storey, Awel y Mynydd,
Ceunant, Llanrug (650600)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stad Ty
Hen, Waunfawr (650599)

TREFNYDD GWERTHANT

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr
Orsaf, Llanrug (675510)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(0248 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (673536)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (676733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAI 27
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, MAI 17
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
MEHEFIN	MAI 27	BRYNREFAIL	Miss Lowri P. Roberts	870580
GORFFENNAF	GORFFENNAF 1	BETHEL	Mr Geraint Elis	(0248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 9	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 30	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 28	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
RHAGFYR	RHAGFYR 2	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034

Dymunaf ddiolch i'r cysylltwyr am eu cydweithrediad a'u parodrwydd i fy nghynorthwyo i drefnu'r rota am y flwyddyn.

Llythyrâu

Llygad yr Haul
Penisarwaun
Caernarfon

Annwyl Gyfeillion

Ebrill 1993

Etholiad Llanddeiniolen

Yr oeddwn wedi bwriadu ymweld â phawb yn Ward Llanddeiniolen cyn y 6ed o Fai, ond yn anffodus bûm mewn damwain car, a gorfu i mi fynd i'r ysbyty am archwiliad; yn lwcus nid oedd yr anaf yn ddrwg. Awgrymwyd i mi orffwys, ac o'r herwydd mae'n bosib' na lwyddaf i weld pawb. Serch hynny gobeithiaf y gallaf ddibynnu ar eich cefnogaeth.

Yn bur,

PAT LARSEN

YN EISIAU . . .

GWIRFODDOLWYR
PLÛS
i helpu
ECO'R WYDDFA

1.

GOHEBYDD PENTREF NANT PERIS

i fod yn gyfrifol am gasglu
newyddion y pentref.

2.

PRIF DDOSBARTHWR

i gyfrif a bwndelu copiâu o'r Eco
ar noson y plygu a sicrhau eu
bod yn cyrraedd y prif werthwyr
pentref. Jest y job i rywun cryf
o gorff ac o gar, all sbario un
nos lau bob mis.

Rhoddir hyfforddiant os oes
angen. Cysylltwch â:

John Roberts

Bedw Gwynion

Ffordd Glanffynnon

Llanrug

Ffôn: (0286) 675605

CYFARFOD BLYNYDDOL YR ECO

MEHEFIN 9fed am 7.00
YN YSGOL BRYNREFAIL
Cofiwch ddod

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM

FFENESTRI CELTAIDD (CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL



- ★ Gwydro Dwbl a Sengl
- ★ Gwaith Domestig a Chontract
- ★ Gwarant 10 mlynedd
- ★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim



**CYMHARWCH EIN PRISIAU
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!**

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160

ANTUR PADARN

yn cyflwyno

SEINIAU PADARN

NEUADD YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG
nos Fercher, 12 Mai 1993
am 7 o'r gloch

Cyfle i ymlacio a mwynhau talentau
plant Ysgolion Cynradd
Bethel, Cwm-y-glo, Deiniolen, Llanberis
Llanrug, Penisarwaun, Rhiwlas a'r Waunfawr.

Cyflwynydd: Arwel Jones

Mynediad: £3 (plant am ddim)

Tocynnau ar gael drwy ffonio Robin Jones
ar (0248) 670140
neu drwy'r Ysgolion uchod

Yr elw tuag at Antur Padarn

Llinyn yn Llywio'r Llwyth

gan DEIO

Mae rhywun yn gweld y penawdau bras yn neidio allan o'r papurau — geiriau breision yn mynegi cymaint o drallod oedd i'r ras enfawr honno a gynhelir yn Aintree bob blwyddyn, beidio a bod yn ras deg eleni oherwydd methiant dwbl y llinyn cychwyn i godi'n glir gan adael y maes yn gwbl agored i'r ceffylau a'u marchogwyr.

Nid unwaith ond dwywaith, sylwch, y bu i'r peirianwaith henafol hwnnw benderfynu ei fod wedi cael digon ar roddi pleser i'r genedl a'i fod am gael boddhad ei hun am newid. Tybed nag oedd yn hen bryd i hynny ddigwydd hefyd?

Sawl tro y clywyd tros y blynyddoedd diwethaf fod y cyfrifiadur wedi gwneud camgymeriad wrth nodi ryw swm neilltuol i'w dalu? Neu a fu i chwi ddarllen rhywbeth hynod o od a digrif wrth ddarllen pwt mewn papur rywdro? Ie, dyna chi — diawl y wasg yn cael y bai unwaith eto!

Rhyw feddwl y byddaf wrthyf fy hun fod peiriannau'n bethau hynod gyfleus i roi bai arnynt gan nad ydynt yn abl i ateb yn ôl. Ond hwyrach mai fi fydd yn syrthio'n glwt ar fy wyneb y tro hwn. Wyddoch chi ddim sawl tro y bu imi chwalu rhyw lythyren arbennig wrth imi deipio hyn o lith! Diolch fod gan y cyfrifiadur yma y gallu i wneuthur hynny ddywedaf i neu buasai'r diafol yn cael y bai am sawl tro decini.

Fodd bynnag, gadewch inni fynd yn ôl at y 'Genedlaethol Fawr' am eiliad. Dychryn fod £70 miliwn a mwy wedi'i fetio ar y ras arbennig honno mae'n debyg heb sôn am y miliynau tebyg a werir ar weddill y rasus a gynhelir weddill y flwyddyn. Ni ddychmygais erioed fod swllt gan hwn a hanner coron gan llall o'i ychwanegu at sawl punt gan hwnacw yn rhoi cymaint o gyfanswm. A phwy tybed sy'n elwa ar hyn i gyd? Ai chi a fi? 'Sgersli bilif', chwedl Ifas gynt. Meddyliwch fod mwy na phunt y

pen o holl bennau trigolion Prydain Fawr wedi'i wario ar y ras. Ychydig flynyddoedd yn ôl roedd gan yr Urdd ymgyrch punt y pen ond dywedwch i mi a fu honno'n ymgyrch lwyddiannus? Gadawaf i chwi ateb. Wedyn, beth am gronfa'r mil o filoedd a ddechreuwyd gan y diweddar Gwyndaf tuag at goffrau'r Eisteddfod Genedlaethol, neu cais Moi Parri am i fil neu fwy o deuluoedd gyfrannu can punt y teulu tuag at gynorthwyo Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn yn ei thrafferthion ariannol?

Mae hyn yn fy ngwneud i dybio fod gennym fwy o hyder mewn siawns ceffyl a'i farchog i ennill ras hynod o anodd nag sydd gennym mewn sicrhau parhâd o'n diwylliant cenedlaethol fel Cymry. Gellid dadlau fod ein tranc fel Cenedl Gymreig ynghlwm wrth llinyn y 'Genedlaethol' tua swbwrba Lerpwl yna! Os y bu ichwi barhau i ddarllen hyd at hyn, mae gobaith gweddol eich bod yn cytuno gyda mi. Ond wedyn, ni ddymunwn fod yr un sy'n gyson yn taflu dŵr oer ar fwynhad pobl wrth hapchwarae — dim ond gofyn am ychydig bach o gymyroldeb yr wyf gan gofio'r hen air hwnnw a ddywed nad yw gormod o ddim yn dda i neb. Chwerthwn i fyny'n llawes am y digwyddiad digrif yn Aintree a pheidiwn a meddwl am funud fod trasiedi fwyaf y ddegawd wedi digwydd. Byddai barn felly yn peri pryder am gyflwr ein cymdeithas. Na, mae'n iawn i'n peiriannau gael eu hwyl eu hunain weithiau hefyd!

PEN-LLYWYDD Y CIGYDDION



Wavell Roberts, yn rhinwedd ei swydd, yn cyflwyno £626 i Richard Williams, un o swyddogion Ysbyty Gwynedd. Cafwyd yr arian mewn noson arbennig o'r Ffederasiwn dan lywyddiaeth Wavell a'i ddewis ef oedd defnyddio'r arian i brynnu tair cadair therapi arbennig i'r ysbyty.

Mae Wavell Roberts o Lanrug, sy'n hysbysebu'n rheolaidd yn yr *Eco* fel 'Pen Cigydd y Fro' wedi ei ethol yn Ben-Llywydd Cigyddion Gogledd Cymru. Derbyniodd yr anrhydedd hwn, sef Llywydd Cymdeithas Masnachwyr Cig Gogledd Cymru, yn ystod mis Mawrth, ac mae'n credu mai dyma'r tro cyntaf erioed

i gigydd o'r ardal hon gael ei ethol i'r swydd.

Mae'r Gymdeithas yn bodoli ers 1922, a chigyddion o ddwyrain Gwynedd a Chlwyd sydd wedi bod yn llenwi'r swydd dros y blynyddoedd. Dywedodd Wavell fod y Gymdeithas yn cyfarfod yn rheolaidd ym Mae Colwyn, gan mai

ANFFAWD TRÊN BACH YR WYDDFA

Am un ar ddeg o'r gloch fore Sul, y pedwerydd o Ebrill, bu un o ddamweiniau mwyaf difrifol lein bach y Wyddfa er y dydd agoriadol yn ôl yn 1896. Rhyfedd yw nodi fod y ddamwain wedi digwydd bron yn yr union fan ac ar yr union ddyddiad y diflannodd L.A.D.A.S. druan i berfeddion Cwm Glas, a hynny ar ei thaith gyntaf i lawr o'r copa.

Deallwn mai ar ei ffordd i lawr oedd injan rhif 4, sef Snowdon, pan am ryw reswm y neidiodd oddi ar y cledrau gan ddimchwel a throï ar ei hochr ar lethrau Clogwyn Coch. Yn wir, dyma'r tro cyntaf er y diwrnod agoriadol i'r fath anffawd ddigwydd, a diolch i'r drefn na ddigwyddodd hyn yn uwch i fyny'r mynydd, gan y byddai'r canlyniadau wedi bod yn drychinebus. Nid oedd y rhan yma o'r lein yn agored i'r ymwelwyr ar y pryd, a chriw o weithwyr cynnal a chadw oedd yn teithio yn y cerbyd blaen. Dihangodd y gweithwyr o'r cerbyd blaen heb anaf ond bu peth

difrod i'r cerbyd a'r tryc cludo.

Digwyddodd y ddamwain mor ddychrynlyd o sydyn fel na chafodd y gyrrwr, Robert Henry Jones a'i daniwr, Eban Wyn Humphreys, gyfle o gwbl i neidio allan o'r injan fel y gwnaeth eu rhagflaenwyr bell yn ôl yn 1896. Deallwn bod Mr Eban Humphreys, un o yrrwyr mwyaf profiadol y Cwmni, wedi cael niwed drwg i'w gefn. Bu'n rhaid cael hofrennydd i'w gludo i Ysbyty Gwynedd, a bu yno yn derbyn triniaeth am dros bythefnos.

Roedd y gwaith o godi'r injan yn ôl ar y cledrau yn anodd dros ben, ac mae'r gweithwyr i'w canmol yn fawr am eu gwaith caled o gofio safle'r ddamwain a gerwinder tywydd mis Ebrill ar lethrau Clogwyn Coch. Daeth 'Snowdon' druan yn ôl i Lanberis y dydd Iau canlynol, bum diwrnod wedi cychwyn ar ei thaith anffodus. Dymunwn adferiad buan i Mr Humphreys a gwell lwc i'r lein bach yn y dyfodol.

AGOR SWYDDFA ANTUR PADARN

O hyn ymlaen bydd yn bosibl i chwi gyfarfod â Robin Jones, Swyddog Datblygu Antur Padarn, bob bore Gwener rhwng 10 — 1 o'r gloch mewn swyddfa wedi ei lleoli yn Amgueddfa'r Gogledd yn Llanberis.

Os oes gennych gynlluniau i ddechrau busnes; angen trafod cynlluniau hyfforddiant ar gyfer swydd; meddwl mynd yn ôl i weithio wedi cyfnod magu plant; meddwl gweithio o'r cartref ac angen trafod eich cynlluniau; angen gwybod am grantiau i adnewyddu adeiladau ar gyfer defnydd cyhoeddus neu waith; neu unrhyw ymholiad arall, yna bydd y Swyddog Datblygu yn falch o drafod y materion hyn gyda chwi.

Felly, cofiwch alw i'w weld. Gofynnwch wrth y dderbynfa am y Swyddog Datblygu ac yna fe drefnir i chwi ei gyfarfod. Nid oes angen ffonio i wneud apwyntiad — dim ond troi i fyny ar fore Gwener.

Mae Antur Padarn hefyd yn bwriadu cynnal cyfarfodydd cyhoeddus o gwmpas pentrefi Dyffryn Padarn yn ystod diwedd mis Mai. Pwrpas y cyfarfodydd hyn fydd cyhoeddi canlyniadau'r holiadur a ddosbarthwyd gan yr Antur o gwmpas pentrefi'r dyffryn yn ystod mis Chwefror/Mawrth 1991.

Os ydych am wybod am anghenion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol eich pentref arbennig chwi yna dewch i'r cyfarfodydd cyhoeddus. Cynhelir y cyfarfodydd hyn mewn pedair canolfan. Dyma'r manylion i chwi — nos Lun, Mai 17: Ysgol Gynradd Llanrug; nos Fercher, Mai 19: Ysgol Gynradd Y Waunfawr; nos Lun, Mai 24: Neuadd y Ganolfan, Deiniolen; nos Fawrth, Mai 25: Angorfa, Llanberis.

o'r ardal honno y daw'r mwyafrif o'r aelodau, ac hefyd am ei bod yn ganolog i'r cigyddion rhein sy'n teithio o ardaloedd megis yr Wyddgrug yn y dwyrain, a Chaernarfon yn y gorllewin.

Daeth yr anrhydedd diweddaraf hwn i Wavell yn dilyn ei lwyddiannau eleni a'r llynedd mewn gwahanol gystadlaethau trin cig — cafwyd hanes ei oruchafiaeth am wneud selsig eisoes yn yr *Eco*.

Mae'r Gymdeithas yn rhoi llawer o'u hamser i gasglu arian at wahanol elusennau yng ngogledd Cymru, ac ar hyn o bryd maent yn cyfrannu tuag at gronfa yn Ysbyty Gwynedd i blant sy'n gaeth eu hanadl. Dymunwn bob llwyddiant i'r Llywydd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, gan obeithio gweld mwy o lwyddiannau i 'Ben Cigydd y Fro'.

DRAENOG



Os byddwch yn Llundain yn o fuan, ac os digwydd i chi weld trowsus trac-siwt yn rhedeg o gwmpas y lle, dowch a fo adref i Ysgol Dolbadarn. Ar ddiwedd Marathon Llundain roedd y trowsus wedi diflannu o fag rhedwr o fri o'r ysgol. Tybed ai un o faniau'r cwmni preifat sy'n cario carcharorion oedd y fan a ddaliai'r bagiau? Mae popeth fel petae yn diflannu o'r rheiny!

Cwmni
TARIAN
Cyf.



Yswiriant Car neu
Yswiriant Tŷ
Gadewch i ni
Roi pris i chi.

TARIAN
6 Stryd Bangor,
Caernarfon
Ffôn: (0286) 677787

O SIAMBAR SELWYN

Bob tro y byddai'n clywed sŵn olwynion yr awyren yn cusanu'r tarmac ar faes awyr Manceinion mi fyddai'n rhoi ochenaid o ryddhad, ac yn deud — 'Wel, dyna'r tro ola'. Ydw, wrth fynd yn hŷn rwy'n mynd yn fwy 'ofnus' o hedfan am ryw reswm. Ond o feddwl dros y peth, mae'n siŵr gen i mai'r diflastod ynglŷn â hedfan yw gwreiddyn yr 'ofn'. Yr oriau a dreulir ar y maes awyr, y ciwio gyda'r bagiau, yr archwilio manwl. Y ddwy awr neu dair o ddiffastod cyn codi uwchlaw'r cymylau. Ond dyna fo — os am fynd i bellteroedd daear rhaid bod yn amyneddgar ac ufuddhau i'r trefniadau hyn.

Mi rydw i wedi mynd yn ddiweddar 'ma hefyd i fwynhau y teithiau byr yn hytrach na'r teithiau hir.

Taith gweddol fer (tua phedair awr a hanner) yw'r daith i Ynys Cyprus — y drydedd ynys o ran maint ym Môr y Canoldir — gyda thri chyfandir yn ei gwarchod o hirbell.

Dyma ynys ddiddorol a chroesawgar. Ynys y gellir olrhain hanes bywyd dynol arni yn ôl i chwe mil o flynyddoedd cyn Crist. Ynys sy' a'i duwiau/duwiesau mytholeg yn fythol fyw. Aphrodite — duwies cariad (mae yna win sych blasus sy'n dwyn yr un enw hefyd); Demetra — duwies amaethyddiaeth; Dionysos — duw y gwinoedd a hapusrwydd; Apollo — duw yr haul; a Poseidon — duw y môr.

Ond mynd yno i ymlacio tipyn a wnes i yn hytrach nag i olrhain hanes ac i astudio mytholeg y gorffennol, er rhaid cyfaddef ei bod yn amhosibl crwydro'r ynys heb i'r gorffennol lapio amdanoch chi.

Dywedir i Sant Paul gael ei glymu wrth un o'r pileri sydd ger eglwys Chryssopolitissa, Pathos, a chael ei chwipio 'ddeugain namyn un' o weithiau, pan ymwelodd â'r ynys i gyhoeddi Cristnogaeth i'r Rhufeiniaid tua'r flwyddyn 45 A.D.

Ia, hanes ddoe yn lapio amdanoch. Mae tensiwn hanes heddiw i'w deimlo yma hefyd. Os chwalwyd mur Berlin, mae muriau yn dal i rwygo'r brifddinas Nicosia. Ydy, mae problem Ynys Cyprus ar agenda'r Cenhedloedd Unedig ers tro byd, ond does dim brys i'w datrys yn ôl pob golwg. Na, tydi'r *aur du* a elwir yn olew ddim yn llifo drwy weithiennau Cyprus.

Mae'n werth diflannu o haul crasboeth y traethau a threulio peth

amser 'yn dyrchafu eich llygaid tua'r mynyddoedd'. Mi fydd y daith ar hyd ffyrdd cul nadreddog i fyny tua mynydd Olympus yn brofiad bythgofiadwy. Pe bawn i yn sgiwr hawdd y gallwn fod wedi cael sgïo i lawr llethrau mynydd Olympus (tua 6,500 o droedfeddi) o fewn awr i fod yn torheulo ar y traethau. Cefais yr un profiad yn Sbaen ychydig yn ôl, lle bûm yn torheulo ar un o draethau'r 'Costa Llosgi Bol' yn y bore ac yn pledu peli eira at ein gilydd ar lethrau llithrig mynyddoedd y Sierra Nevada ymhen dwy awr wedyn. Ydy, mae'n anodd coelio hyn. Ond coeliwch neu beidio, yn Sbaen ar lethrau'r Sierra Nevada y cynhelir pencampwriaethau sgïo'r byd ymhen dwy flynedd. Ys gwn i a fydd na rai o sgiwyr Bro'r Eco yn cystadlu yno? Ie, rhyfedd o fyd, pencampwriaethau sgïo yng ngwlad yr haul.

Y diwydiant ymwelwyr yw prif ddiwydiant Cyprus heddiw, a'r ymwelwyr hynny yn dod i chwilio am yr haul yn hytrach na'r eira. Gyda llaw, mae Bwrdd Twristiaeth Ynys Cyprus yn honni y ceir yno 340 o ddyddiau heulog bob blwyddyn. Hysbys da i ddenu ymwelwyr.

* * * *

Profiad hapus ac annisgwyl i mi oedd cael treulio deuddydd yng nghwmni y tîm pêl-droed Cenedlaethol a gynrychiolai y 'Siecs a'r Slofacs'. Roeddent yn aros yn yr un gwesty a ni ar gyfer eu gêm yn erbyn Cyprus. Deuthum yn gyfeillgar a'r rheolwr, Milan Machala, a bûm yn gwyllo video o gêm Cyprus v Cymru gydag o noson cyn y gêm. Roedd o'n gwbl gyfarwydd a thalent rhai fel Rush, Hughes a Saunders wrth gwrs, ond doedd o ddim mor gyfarwydd a thalent bachgen ifanc o'r enw Giggs. (Cofiwch roedd hyn wythnos cyn i Gymru guro Gwlad Belg.) Cawsom fod yn westeion arbennig iddo yn y gêm, ar yr amod wrth gwrs ein bod yn cefnogi y Siecs a'r Slofacs! Ond yn ddistaw bach roeddem am i Gyprus ennill gan y byddai hynny yn fwy o blaid Cymru — sydd yn yr un grŵp. Fodd bynnag gêm gyfartal a gafwyd. O oes, mae 'na dalentau yn nhim amaturaidd Cyprus. Gwnaeth Cymru yn dda i ennill yno.

Neithiwr roedd Cymru yn chwarae ar dir y Slofacs. Ys gwn i a fydd enw Giggs ar wefusau Milan Machala os caf y frainc o'i gyfarfod rhywro eto?

* * * *

Fel un sy' wedi bod mor anffodus a chael ei daro a'r aflwydd 'salmonella' ddwywaith, fydda i byth yn mentro yfed dŵr mewn gwlad dramor — er bod dŵr Cyprus yn berffaith bur i'w yfed, *medda nhw!* mynd i siop fechan ger y gwesty i brynu potel o ddŵr wnes i a dyna sioc a gefais o ddarllen y label ar y botel — 'Cerist — Dŵr Mwyn Naturiol Cymru o ffynhonnau Parc Cenedlaethol Snowdonia. Potelwyd, Llawr Cae, Dinas Mawddwy. Pris 59c y botel.'!!

Ia, rhyfedd o fyd. Iechyd da i chi gyd — boed win Cyprus neu ddŵr Cymru.

DRAENOG



Glywsoch chi am y wraig o Ddeiniolen oedd wedi gwylltio'n lân ac wedi rhewi'n gorcyn tan 4 o'r gloch un pnawn? Fedrai hi ddim gwneud tân rhag rhostio Billi Wyn y cocatŵ. Roedd hwnnw wedi eistedd yn yr ash-tray ar y grât a'r wraig yn methu'n glir a'i gael yn ôl i'r gawell cyn iddi nosi.

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Cymdeithas y Chwirydd: Agorwyd tymor newydd Cymdeithas Chwirydd M.C. Brynrefail nos lau, Ebrill 1af, pan gyfarfu'r aelodau yn y Festri. Estynnwyd croeso i bawb gan y Llywydd, Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog. Roedd y myfyrdod o dan ofal Miss Lowri P. Roberts, Godre'r Coed, wedi ei seilio ar ddetholion o Lyfr Ecsodus, Eseciel a'r Epistol at yr Hebreaid yn olrhain hanes a swyddogaeth y tabernacl mewn addoliad. Y gŵr gwadd am y noson oedd y Parchg Gwynfor Williams, Llanberis, a chafwyd noson bleserus a bendithiol yn ei gwmni yn tywys yr aelodau ar daith o'u cynefin gan ddangos sleidiau o fannau diddorol nes cyrraedd Llanfihangel y Pennant a Bryncrug yn yr hen Sir Feirionydd — bro Mari Jones, a gorffen yn y Bala. Diolchwyd iddo gan Mrs Verna Jones. Roedd y lluniaeth yng ngofal Mrs Eirianwen Evans a Mrs Pat Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 6ed.

Pen-blwydd arbennig: Longyfarchiadau calonog iawn i Mrs Maggie Closs Parry, Bryniol, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar Ebrill 23ain. Wedi ei geni a threulio ei hoës yn y pentref, hi yw'r hynaf yn ein plith erbyn hyn. Mae ein cofion atoch yn gynnes iawn fel pentrefwyr a llawer blwyddyn eto i ddod.

Cydymdeimlo: Mae ein cydymdeimlad yn ddwys iawn â Miss Blodwen G. Owen, 2 Tai Orwig, o golli ei nith, Annabel, a drigai yn Southampton.

Llywyddiant: Longyfarchiadau i Kelvin Houston, 2 Trem Eilian, ar lwyddo yn ei gam cyntaf fel aelod o'r

Gwarchodlu Cymreig yng Nghanolfan Hyfforddi Brookwood yn Pirbright, Surrey.

Sefydliad y Merched: Cyfarfu'r gangen yn y Festri, nos Lun, Ebrill 19eg, dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Croesawyd gwraig wadd y noson, sef Mrs Mary Jones o Rhosmeirch, sy'n arbenigo ym maes gwydr lliw. Bu'n trafod ei gwaith yn atgyweirio ac addurno gwyliau lliw o bob math a thrwy gyfrwng sleidiau cafwyd cipolwg ar y gwaith comisiwn a ddaw i'w rhan yn atgyweirio ffenestri eglwys. Gofalwyd am y baned gan Mrs Eleanor Williams a Mrs Carol Houston. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan y llywydd, gan Mrs Myfi Roberts. Dymunwyd yn dda i Mrs Jean Davies sy'n wynebu ar driniaeth yn Ysbyty Llandudno ac i'r llywydd Mrs Pat Jones yn ei menter busnes maes o law mewn siop grefftiau yn Stryd Fawr, Llanberis. Nos Fercher, Ebrill 28ain, bydd nifer o'r aelodau yn ymweld â Chyngor Gwanwyn Sefydliad y Merched a gynhelir yn Ysgol Botwnnog. Bydd cyfarfod nesaf y gangen leol ar nos Lun, Mai 17eg.

Cymanfa Ysgolion Sul: Bydd Ysgolion Sul Dosbarth Padarn o Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn ymgynull yng Nghapel Brynrefail ddydd Sul, Mai 2il, am eu Cymanfa flynyddol. Yr arweinydd cerddorol fydd Mr Robin Jones, Bethel, a'r organydd, Miss Lowri Prys Roberts, Brynrefail. Bydd y cyfarfodydd yn dechrau am 2 a 6 o'r gloch. Darperir te rhwng yr oedfaon. Croeso cynnes i bawb.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Cydymdeimlwn â'r canlynol yn eu profedigethau:

Mrs Eileen Davies, 10 Bro Elidir, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, Mrs Lizzie Jones, gynt o Bron Myfyr. Bu farw ar y 13eg o Ebrill ac fe fu'r angladd ar y 16eg o Ebrill; Teulu Mrs Nesta Jones, gynt o Tan y Bryn, Allt Ddu, a fu farw yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon, ar y 7fed o Ebrill. Bu'r angladd ar y 13eg o Ebrill; Mrs Heulwen Jones, 9 Bro Elidir, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, Mr Gwilym Owen Thomas, o Penlan, Galt y Foel, a fu farw ar yr 28ain o Fawr ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys Crist Llandinorwig ar y 31ain o Fawrth.

Cydymdeimlwn yn fawr fel pentrefwyr a'r teuluoedd hyn yn eu profedigethau.

Gwasanaeth Undebol: Cynhelir Gwasanaeth Undebol Wythnos Cymorth Cristnogol yng Nghapel Sardis ar brynawn Sul, Mai 16eg, am 2 o'r gloch. Eisoes mae aelodau Eglwys St. Mair a Chapel Sardis wedi derbyn amlenni casgliad Cymorth Cristnogol ac fe ddisgwylir dychwelyd y rhain erbyn y gwasanaeth hwn. Fe wasanaethir gan y Parchg Olaf Davies a'r Canon Richard Owen (Deon Gwlad). Croeso cynnes i bawb i ymun yn y gwasanaeth arbennig hwn.

Yr Allt Ddu: Fel yr adroddwyd yn y wasg yn ddiweddar mae'n ymddangos bod gan Gyngor Arfon gynlluniau i droi safle diffaith Allt Ddu

yn ardal hamdden atyniadol. O ddeall hyn mae'r Cynghorydd Glyn Tomos wedi anfon llythyr at Gyngor Arfon yn gofyn iddynt gyflwyno eu cynlluniau ar ffurf arddangosfa yn y Ganolfan er mwyn i'r pentrefwyr gael mynegi eu barn am y datblygiad hwn. Yn ei lythyr fe bwysleisia ei bod yn hanfodol i'r Cyngor ymgynghori â'r bobl leol ynglŷn â'r mater hwn.

Cysgodfan Bws: Mae'r gwaith o adeiladu'r gysgodfan bws, gyferbyn â Maes Eilian, wedi ei gwblhau. Bydd y gysgodfan yn gaffaeliad mawr wrth i deithwyr ddisgwyl am y bws mewn tywydd garw.

Hwyl Haf: Bwriedir cynnal Hwyl Haf eleni ar brynawn dydd Sadwrn, Gorffennaf 3ydd, yn yr Allt Ddu. Byddai Glyn Tomos yn falch iawn o glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb i'w gynorthwyo gyda'r gwaith trefnu.

Gwerin y Coed: Mae ein diolch yn fawr i aelodau Grŵp Gwerin y Coed am fynd o amgylch y pentref i gasglu sbwriel. Maent i'w llongyfarch yn fawr am arwain y ffordd yn yr ymgyrch hon.

Adroddiad Ariannol Blynnyddol: Mae aelodau a chyfeillion Eglwys St. Mair wedi derbyn yr adroddiad blynnyddol erbyn. Mae'n diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth ac i'r swyddogion am eu gwaith. Rhoddir blodau ar yr allor ar Suliau 2 a 9fed o Fai gan Mrs Glenys Jones, 4 Bro Elidir, ac yna ar y Sul 23 o Fai gan deulu Creigle gynt. Diolch ymlaen llaw iddynt hwy.

Er na ddaeth llawer ynghyd fe aethpwyd ymlaen gyda'r orymdaith gyda'r Groes drwy'r pentref ar brynawn Gwener y Groglith. Diolch i Mrs Caren Jones, Mrs Gwyneth Jones, Bethan Wyn, Ffion Haf a Glyn Tomos am orymdeithio ac i'r hanner dwsin arall a ymunodd mewn gwasanaeth syml a gynhaliwyd wrth yr Eglwys. Ar fore Sul y Pasg cafwyd gwasaneth bendithiol iawn o dan arweiniad y Parchg Tegid Roberts.

Diolch: Dymuna Mrs Hanna Roberts, Tŷ'r Ysgol, ddiolch i bawb a gefnogodd y casgliad a wnaed ganddi o ddrws i ddrws tuag at Gronfa Haematoleg a Chymorth Cancer Gwynedd. Casglwyd y swm anrhydeddus iawn o £166.

Diolchiadau:

Dymuna Jennie Jones, Buarth Newydd, ddiolch i'w theulu a'i chymdogion am y blodau, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar ddathliad ei phen-blwydd yn 92 ar Ebrill 10fed.

Dymuna Jennie Jones ac Ellen Thomas, Buarth Newydd, ddiolch o galon i'r teulu a'u cymdogion am y cardiau a'r geiriau caredig o gysur a gawsant ar farwolaeth eu hannwyl chwaer, Mrs Lizzie Jones, 10 Bro Elidir, ar Ebrill 13eg.

Dymuna Eileen a Gwilym ddiolch o galon ar ran eu mam, Mrs Lizzie Jones, i'r teulu a ffrindiau am yr holl flodau, y rhoddion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniwyd pan yn dathlu ei phen-blwydd yn 92 ar Ebrill 10fed.

Dymuna Eileen a Gwilym, 10 Bro Elidir, a'r holl deulu, ddiolch yn garedig iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad, y cardiau, geiriau caredig, rhoddion a phob galwad a

dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigethau o golli Mrs Lizzie Jones, mam gariadus a gofalus a nain hoffus, ar Ebrill 13eg. Diolch arbennig i'r Parchg Huw John Huws am fod mor annwyl yn y tŷ ac yn yr Amlogfa. Diolchir hefyd i'r meddygon teulu a'r gweinyddesau'r gymuned am eu gofal tyner a chariadus am amser maith. Hefyd mae'n diolch i Myrddyn Pritchard am ei drefniadau trefnus.

DRAENOG



Fusutors uffar. Welsoch chi'r pacedi crusps fel confetti ar lethra'r Wyddfa dros y Pasg? Tydi'r bygars ddim wedi clwâd am y Cyntri Côt 'dwch? Bagia plasdig yn filio o gwmpas y caea; giatia heb 'i cau. Defaid yn mygu; gwarthaig yn denig. Go drapia a go petha' cryfach hefyd...

... Bloody farmers. So-called guardians of the countryside. Walked from Llanberis to Bwlch Maesgwm (can't say it, but I looked it up on the map for the correct spelling). Great big black bloody plastic big bale covers fluttering on the fences, blocking the ditches and streams. Haven't these farmers heard of the Country Code? And them livin' in't National Park as well...

RYDYCH YN WELL ALLAN MEWN VOLVO

Math	Model	Pris ar y ffordd*
Volvo	440 1.6 Li	£9,995
Vauxhall	Astra 1.4i LS	£10,540
Ford	Escort 1.4 iL	£10,700
Volkswagen	Golf 1.4 CL	£11,020

Y Volvo 440 1.6Li nid yn unig yw'r rhataf o'r ceir uchod ond mae ganddo hefyd gostau rhedeg ac yswiriant isel. O ran ansawdd, diogelwch a chyfforddusrwydd, mae'n bell o flaen y gweddill.

Ffoniwch rwan i drefnu prawf i weld pam y byddech yn well allan mewn Volvo.

GWETHREDU
AR GYFER

DIOGELWCH PLANT
YN CYDWEITHIO Â

VOLVO

*Yn cynnwys costau cludo cyhoeddedig y gwneuthurwr a phlatiau rhifau. Nid yw'n cynnwys treth car. Mae'r prisiau'n gwrir ar adeg mynd i'r wasg.



MODURDY TY'N LÔN CYF

Ffordd Caergybi, Llanfairpwllgwyngyll, Ynys Môn LL61 5SX. Tel: 0248 714259

Oriau Agor: Llun - Gwener 8.00a.m. - 7.00p.m. Sadwrn 9.00a.m. - 5.00p.m.

Sul 1.00p.m. - 5.00p.m.

Lloergan ar y Marne gan Y Gwalch

Yn agos i Epernay y mae pentre bach sydd yn dwyn Andalusia i'm cof. Mae'n sefyll ar fryn uwchlaw'r gwinllanoedd ac y mae ffordd gul yn arwain ato. Mae'r eglwys fel un gadeiriol, ac islaw ymysg y meysydd gwenith, mae'r afon Marne yn llifo ar draws Champagne. Ym mis Awst, mae'r wlad yn deisban o aur a gwyrdd.

Wrth yr eglwys mae yna sgwâr bychan lle bydd y dynion yn dod i chwarae petanc yn y llwch. Wedyn, byddant yn mynd ar draws i 'buvette' Armand i ddadlau am y gêm. Un hwyliog yw Armand, ac y mae wrth ei fodd pan fydd tramorwyr yn canmol ei win. Mae ganddo rês o fyrddau bach ar ymyl y sgwâr a'i wraig fydd yn cario'r gwin.

Arferai Millbert, y certmon, fynd yno gyda'r nosau. Gwthiai ei gorff byr rhwng y byrddau, ac ysgydwai law â chryn ddwsin. Ond ychydig iawn â ddywedai. Yr oedd bob amser yn cadw ar ymylon y sgwrs, a byddai yn symud ei wefusau yn ddistaw.

Un amser cinio â minnau'n eistedd y tu allan i'r 'buvette' daeth wagen Millbert yn swnllyd ar draws y sgwâr. Safodd y ceffylau o dan y coed palmwydd, a rhoddodd Millbert ei chwip yn y ffrâm.

'Mae hi'n rhy boeth i gario,' meddai. Daeth i eistedd wrth fy ochr ac yr oedd y chwys yn rhedeg ar ei ael. Yna dechreuodd ddwrddio am ei geffyl blaen.

'Anhwylus,' meddai, 'Dyna'r gair. Wnaiff o ddim cadw'r cadwynni ar dynn i fyny'r allt — ac wrth fynd i lawr mi fydd yn tuthio, tynnu'r ceffyl bron oddi ar ei draed. Mae'n rhaid i mi fod wrthi hefo'r awennau neu'r chwip o hyd.'

Nid oedd Millbert yn hoffi defnyddio'r chwip, ond yr oedd wrth ei fodd yn siarad â dieithriaid.

'Sais wyt ti'n yntê?' gofynnodd. 'Rwy'n pasio am un yn y wlad yma.'

'Ar dy wyliau wyt ti?'

'Rwyf yn gwersyllu ar lan yr afon.' 'Fûm i erioed ar wyliau,' meddai fel dyn mewn cyffesfa. 'Rwyf wedi bod yn cario ers hanner canrif: brigau yn y gaeaf, ôd yn yr haf, yn yr hydref byddaf yn cario casgenni. Gwersyllu ddwedaist ti? Wrth yr afon? Mae 'na lawer yn dod: Almaenwyr, Llychlynwyr — Saeson. Ond ychydig fydd yn dod i fyny yma. Maent yn mynd i'r de ar frys. Pam y daethost ti yma?'

'Chwilyfrydded debyg — 'run fath â chi.'

Symudodd ei wefusau ar ôl profi ei win a gwenodd yn wanaidd.

'Peth rhyfedd,' meddai, 'Fe ddaeth yna un tebyg i ti rhyw ddwy flynedd yn ôl, ynteu ydy hi'n dair? Sais. Rwy'n cofio i mi ei daflu oddi ar ei echel hefyd, ac yr oedd yn edifar gennyf. Ond fel yna y mae bywyd.' Roedd yn codi ei ysgwyddau a thaflu ei freichiau.

'O, sut y darfu i chi lwyddo i wneud hynny?'

'Heb drio. Hogyn ifanc oedd o. Daeth ar ei foto-beic i fyny i'r pentra yma a'i gadw yn y stabal. Astudio'r gyfraith yr oedd o. Roedd ganddo fo babell, ond doedd o ddim yn ei defnyddio hi yr adeg honno. Fe roddodd Armand ystafell iddo ac arhosodd am wythnos. Byddai yn cerdded drwy'r gwinllanoedd ac yn eistedd ger yr afon am oriau.'

'Creadur digri,' meddwn i.

'Ddim o gwbl. Roeddwn yn ei hoffi. Dywedodd lawer o hanes Llundain wrthyf. Dywedodd stori am y Marne wrthyf hefyd. Rhywbeth a ddigwyddodd pan arhosodd ar ei glau tros nos cyn dod yma. Roedd yn beth anodd iawn i'w gredu. Mi daflais o oddi ar ei echel hefo'r stori honno.'

'Ddarfu i chi ei alw yn gelwyddog?'

'Dim o gwbl. Fel arall yn hollol yr oedd hi. Cyn gynted ag y dechreuodd ddweud y stori, roeddwn yn gwybod beth oedd yn mynd i ddod. Rhoddais i ddim cyfle iddo orffen ac mae'n ddrwg gen i byth. Doedd dim rhaid iddo gael gwybod.'

Yr oedd pryder Millbert yn amlwg. Dechreuodd droi ei wydr yn ei law. Dywedais innau:

'Yr ydych yn poeni heb achos. Mae'r peth wedi ei anghofio yn siŵr erbyn hyn. Yr ydych yn dweud na fuoch erioed i ffwrdd. Ydych chi ddim yn meddwl y buasai newid bach yn llesol i chi; newid eich rhagolwg; fuasech chi ddim yn dychmygu cymaint. Pam nad ewch chi am dro i Reims weithiau neu i Chalons — hyd yn oed i Paris?'

'Ble bynnag yr ei di, mae'n rhaid i ti fynd â thi dy hun hefo chdi.'

'Wel, beth bynnag, beth wnaethoch chi i'r creadur hwnnw — os dylwn i fod yn gofyn?'

Yna dechreuodd Millbert ddweud yr hanes:

'Roedd yr hogyn wedi dod oddi ar y fferi yn Boulogne y diwrnod cynt. Yr oedd ar ei ffordd i'r Vosges; wn i ddim pam. Aeth o ddim i Baris hyd

yn oed. Doedd ganddo fawr o chwaeth at drefi mawr.

'Yr oedd yn dod ar draws gwlad yn bur gyflym hefo'i foto-beic mawr, a phan ddaeth y nos yr oedd yn rhywle gerllaw Soissons ac fe gollodd ei ffordd. Yr oedd yn llwglyd a blinedig. Serch hynny yr oedd am ddal i fynd. Ond pan ddaeth at y Marne roedd arno awydd stopio. Roedd y lleuad i fyny, ac yr oedd yr hogyn yn gallu gweld yr afon, weithiau ar y llaw dde, dro arall ar y llall fel rhuban arian. Mae'n debyg erbyn hynny ei fod yn ceisio darganfod y gwersyll. Mae hwnnw i lawr yn y llyfr onid ydyw? Ond ni ddaeth cyn belled y noson honno.'

'Beth ddigwyddodd?'

'Daeth at wersyll arall. Roedd hwn ar lan yr afon tua phedair neu bum cilomedr oddi wrth y llall heb fod ymhell o'r bont goncrit. Roedd yn deud fod y llecyn yn edrych yn ddeniadol yng ngolau'r lleuad, ac yr oedd yno bedair o bebyll melyn, ac o'u cwmipas yr oedd amryw o blant yn chwarae. Ond ni welodd neb mewn oed.'

'Ni chymerodd y plant fawr o sylw ohono nes aeth atynt i holi ynghylch y gwersyll. Roeddent yn blant del meddai, ac yn addfwyn. Dywedasant wrtho fod y bobl mewn oed wedi mynd i fyny i'r pentre. Yn y cyfamser buasai yn iawn iddo ddod â'i babell yno a'i gosod. Wedyn ciliasant at eu chwarae.'

'Wrth baratoi ei le, gwelodd farj yn mynd i fyny'r afon a'i beiriant yn dyrnu yn y nos. Ond yr oedd yn rhy flinedig i ddisgwyl i'r bobl ddychwelyd o'r pentref. Aeth i'w babell a chysgu, ac ni chlywodd ddim nes dihuo yn y bore. Erbyn hynny, doedd yna neb yn y maes ond ef ei hun. Roedd y pebyll melyn wedi diflannu, a phan groesodd at yr afon sylwodd nad oedd y gwair wedi ei sigo yn unman. Roedd wedi ei synnu braidd, a'r noson honno daeth i fyny yma. Roedd yn eistedd yn y fan yna lle rwyf ti. Cawsom sgwrs. Dywedodd ei fod wedi cael stafell gan Armand, ac o dipyn i beth dywedodd wrthyf am ei brofiad ar lan y Marne. Ond mae'n rhaid ei fod wedi gweld rhywbeth yn fy wyneb pan soniodd am y plant. Roeddwn yn credu ei fod yn amau rhywbeth, ac yn y diwedd bûm yn ddigon ffôl i ddweud wrtho.'

'Beth ddwedsch chi?'

Trodd Millbert ei ben ond yr oedd ei lygaid arnaf o hyd ac yr oeddynt yn wyllt. Clywais sŵn cadeiriau yn cael eu rhugno ar hyd y llawr a chwerthin ac ambell reg. Roedd y

dynion yn codi oddi wrth y byrddau i fynd yn ôl at eu gwaith yn y caeau. Daeth Madame am y gwydrau gweigion, ac yr oedd yn eu codi fesul un yn ddeheuig â blaenau ei bysedd. Safodd y tu ôl i Millbert ac meddai:

'Mi fyddi yn hwyr hefo'r ceffylau eto Millbert. Bydd y padron yn ddig. Wnaiff o ddim talu i ti.'

Roedd ffroenau Millbert wedi lledu, ac yr oedd yn gwasgu ei gap crwn yn ei law. Cododd a mynd at ei geffylau heb ddweud gair.

'Mae Millbert bob amser yn breuddwydio,' meddai Madame.

Ni welais Millbert wedyn am ddeuddydd. Gyda'r nos Sadwrn roeddwn yn eistedd ar fin y winllan. Daeth ataf yn araf ar hyd y llwybr.

'Noswaith dda Millbert.'

Plygodd ac ysgwyd fy llaw.

'Mae Madame yn dweud dy fod yn mynd fory.'

'Ydw.'

'Efallai dy fod yn mynd drwy Chateau Thierry?'

'Mi fedraf.'

'Efallai y caf ddod yn y car?'

Cewch â chroeso. Byddaf yn cychwyn tua wyth o'r gloch.'

'Wyth o'r gloch, Monsieur. Byddaf yno.'

Deffrôdd Millbert fi trannoeth. Roedd hi'n chwech o'r gloch. Tua wyth, cychwynasom. Roedd Millbert yn ddistaw iawn. Ni ddywedodd air nes y daethom at y bont goncrit.

'Dyma'r lle,' meddai. 'Dyma'r maes y dywedais amdano lle gwersyllodd y Sais.'

Ddywedodd o ddim wedyn am dipyn. Roedd ei lygaid ar y ffordd.

'Yr oeddech yn mynd i ddweud wrthyf beth ddigwyddodd,' meddwn.

'Oeddw'n wrth gwrs, oeddw'n. Yr adeg honno yr oedd yna hen farj wedi ei glymu wrth y lan. Roedd ei goed wedi mynd yn bowdwr a'r gwellt yn tyfu trwy ei blanciau. Dylent fod wedi mynd ag ef i ffwrdd cyn i'r peth ddigwydd.'

'Pa beth?'

'Mi aethant ag ef i ffwrdd wedi i'r plant fodd. Mynd ar y barj i chwarae wnaeth y plant, ac fe dorrodd y planciau oddi tanynt, ac fe syrthiodd y cwbl i'r gwaelod a boddi.'

'Pwy oedden nhw?'

'Wn i ddim yn iawn. Plant ysgol o Chalons. Roeddent wedi dod yma i wersylla hefo'i hathrawon.'

'Ac fe aeth rheiny i'r pentre un min nos a'u gadael . . .?'

'Do, do. Felly yn union yr oedd hi. Sut y gwyddet ti?'

(O.N.: Mae gan Y Gwalch erthygl yn y cylchgrawn *Countryman* cyfredol am y tai unnos o dan y pennawd 'Morning and Evening Surprises'.)



Gwynedd Hotel & Restaurant

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

+

J.M. JONES

A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael

Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

GERDDI GLASCOED

(Ger Capel Glascoed)

PENISARWAUN

I'ch gardd fod ar ei orau galwch heibio neu ffoniwch

870453

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Fêlinheli 670726

Diolchiadau: Dymuna Mona a Dafydd, 9 Bro Rhos, ddiolch o galon i Medwen a Dylan, y teulu a ffrindiau am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant ar ddathlu eu Priodas Rhuddem. Diolch yn fawr.

Cydymdeimlo: Ddydd Sadwrn, Ebrill 3ydd, bu farw Mr Ifor Humphreys, gynt o Preswylfa. Estynnir pob cydymdeimlad i'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Llongyfarchiadau i Manon Elis, Cilgeran, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Ebrill 16.

Priodas: Yn ddiweddar yng nghapel y Cysegr, priodwyd Catrin Evans â Martin o Borthaethwy. Dymuniadau gorau i'r ddau.

Enillwyr Clwb 200 Y Neuadd Goffa am fis Mawrth — £20: Christine Morrey, Treflyn Stores (45); £10: Danny Humphreys, Is-Helen, Saron (225); £5: Kathleen Bell, Tŷ Newydd, Saron (220); Pat Owen, Cefn Cynrig (116); Kathleen Williams, Gerddi (87); Ann Williams, Ty'n R'ardd (153); Mabel Jones, Eithinog (111); Gwyneth Price, Llys Gwynt (94); Pat Jones, Cefn (23); Eiriona Williams, 7 Bro Rhos.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Bethel: Ar ran y pwyllgor carem ddiolch yn gynnes iawn i chwi am eich cyfraniad i lwyddiant Ffair Wanwyn yr Ysgol, a gynhaliwyd ar nos Wener, Mawrth 26ain. Gwnaed elw o £690. Enillwyr y Raffl Fawr oedd — £30: R. Lane, Fron, Cwm-y-glo; £20: Iona Jones, 138 Gaerwen Uchaf, Gaerwen; £10: Aled V. Roberts, Gwynfryn, Bethel; Basged o flodau: David Hughes, Llandegfan; Wŷ Pasg: Owain Williams, 15 Y Ddôl, Bethel; Wŷ Pasg: Caryl Owen, Cefn Ffrwd, Bethel; Bocs o siocled: Jean Hughes, Bethel; Wŷ Pasg: Euron Hughes, Penarth, Llanrug; Potel o Chwisgi: W. O. Griffith, Lôn Glai, Pontrug; Potel o Win: Lliffon Griffith, Lôn Glai, Pontrug; Potel o Chwisgi: Mr Griffiths, Llwyn Eithin, Bethel; Potel o Win: Phyllis Jones, Gors, Brynrefail; Cacen: Mrs Gray-Parry, Bryn Bras; Potel o Chwisgi: Mrs L. Jennings, 12 Stryd Marcus, Caernarfon.

Enillwyr Clwb 100 am fis Ebrill — £20: Sion a Mair Williams, Pengwern, Y Ddôl; £15: Jaqueline Jones, Adref, Bro Eglwys; £10: Jennifer Roberts, Gorwel, Y Ddôl; £5: Susan Newton, Llwydiarth, Saron; £3: Mrs Doris Williams, 12 Ffordd Pandy, Caernarfon.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Bydd rhifau Mai yn cael eu tynnu ar ddydd Mawrth, Mai 4ydd.

Yn ystod y tymor diwethaf bu Sian Emlyn Hughes a Debbie Jones, yn yr ysgol yn cael profiad o weithio gyda'r babanod. Gobeithio i'r ddwy gael budd o'u hymwelid. Dymuna'r prifathro, y staff a'r plant bob llwyddiant iddynt i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Miss Lowri Prys Roberts a ddathlodd pum mlynedd ar hugain o wasanaeth fel athrawes yn yr Ysgol ddechrau'r tymor yma.

Ddydd Mawrth cyn i'r ysgol gau am wyliau'r Pasg bu 17 o blant blwyddyn 6 am ddiwrnod yn Ysgol Brynrefail yn cael profiad o fynychu'r gwersi gyda disgyblion blwyddyn 7 yno. Roedd pob un ohonynt wedi mwynhau'r profiad yn fawr ac yn edrych ymlaen am ymweliad arall cyn diwedd y tymor yma.

I gloi'r tymor aeth plant blwyddyn 5 a 6 i gyd i Ysgol Llanrug am brynghawn o chwaraeon yng nghwmni plant hŷn Ysgol Gynradd Llanrug. Diolch i Mr Eifion Watkins a Miss Bethan Evans am baratoi'r plant ac i Mr R. Williams, Prifathro Llanrug a'i staff am eu croeso.

Derbyn yn Gyflawn Aelodau: Yng ngwasanaeth nos Sul, Mawrth 28ain, derbyniodd y gweinidog, y Parchg W. R. Williams, saith o blant y Cysegr yn gyflawn aelodau. Dymunodd y gweinidog yn dda i Llinos Angharad, Llinos Ann, Nia Elin, Donna Marie, Mena Dauncey, Julie Jones a Sam Williams ar yr achlysur pwysig hwn yn eu bywyd.

Talwrn y Beirdd: Nos Fawrth, Mawrth 30ain, recordiwyd y rhaglen 'Talwrn y Beirdd' yn festrir Cysegr. Cafwyd gornest ddifyr iawn rhwng timau Caernarfon a Phenrhosgarnedd gyda Gerallt yn ei hwyliau gorau fel arfer. **Yr Urdd:** Yn cynrychioli'r Gangen eleni yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe ym mis Mehefin mae dau barti adrodd ac un parti canu. Derbyniwyd £50 tuag at y costau teithio gan Y Bedol mewn canlyniad i Noson Cwis a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Sefydlu Gweinidog: Mewn gwasanaeth arbennig yng Nghapel Bethel ar nos Wener, Ebrill 2, sefydlwyd y Parchedig Gwynfor Williams yn weinidog. Dymunir pob bendith a llwyddiant i Mr Williams yn ei weinidogaeth yn y capel a'r ardal. **Merched y Wawr:** Nos Fercher, Ebrill

HEDDLU ARBENNIG BETHEL (1943)



Llun deuddeg o Heddlu Arbennig (Specials) a oedd ym Methel yn 1943 — hanner can mlynedd yn ôl. Erbyn heddiw nid oes yr un! Beth oedd eu hanes a beth oedd eu dyletswyddau tybed? Sgwenwch!

21, cynhaliwyd cyfarfod y gangen gyda Mrs Rhian Hughes yn llywyddu. Estynnwyd croeso i Sidie Roberts, Caernarfon, a aeth a ni yn ôl i Gaernarfon y ganrif ddiwethaf. Roedd ganddi bosteri cyngherddau a dramâu, cwiltiau a dillad o'r cyfnod. Diolchwyd iddi gan Mrs Anne Elis. Enillwyd y raffl gan Mrs Ann Lewis. Roedd nifer o'r aelodau wedi dod a'u gwisg briodas i'w dangos a thasg yr aelodau oedd dyfalu'r flwyddyn y gwisgwyd y ffrogiau. Cafwyd enghreifftiau o ffrogiau'r 60au i'r 90au.

Dewiswyd swyddogion ac aelodau pwyllgor y flwyddyn nesaf fel a ganlyn — Llywydd: Mrs Eirlys Williams; Is-lywydd: Mrs Glenys Griffiths; Ysgrifennydd: Mrs Nora Parry; Is-ysgrifennydd: Mrs Deilwen Hughes; Trysorydd: Mrs Bet Owen; Is-drysorydd: Mrs Mair Jones; Aelodau'r pwyllgor: Mrs Sheila Roberts, Mrs Rhian Hughes, Mrs Mary Griffiths, Mrs Williams, Mrs Rita Williams, Mrs Delyth Williams. O fyd y dartiau bydd tîm 'A' Gors Bach yn esgyn i adran gyntaf Cyngair Caernarfon y tymor nesaf. Maent hefyd wedi cyrraedd rownd derfynol y Cwpan.

Cwisiau'r Bedol: Yn ystod y mis

llwyddodd criw cwis y Bedol i gyfrannu dros £2000 i achosion da. Y mae llawer o achosion lleol wedi elwa o'r cwisiau hwyliog hyn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Cynhelir y cwisiau ar nos Lun — pob pythefnos rhwng misoedd Hydref a Mai. Yn ddiweddar fe gyfranwyd £50 i Gronfa Cŵn Tywys y Deillion (Cronfa John Owen) a £50 tuag at gostau teithio i bartïon o Fethel a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe.

Beth am hel tîm at eu gilydd erbyn y gaeaf nesaf — efallai y cewch eich synnu gan eich gwybodaeth gyffredinol!

DIOLCH

Llawer o ddiolch unwaith eto eleni i griw Cwis y Bedol, Bethel. Cyfrennir un o'u casgliadau tuag at noddi'r tlysau ar gyfer Tlws y Mis yr Eco.

Cynhelir y cwis hynod o boblogaidd am 9 o'r gloch pob yn ail nos Lun, rhwng misoedd Hydref a Mai.

Dewch draw y gaeaf nesaf am noson hwyliog.

GWASANAETH TRIN GWALLT
YN EICH CARTREF I FERCHED,
DYNION A PHLANT
LINDA MORRIS
1 BRYN FEDWEN, Ffordd yr Orsaf
LLANRUG. Ffôn: 678857

ERIC JONES ★ Prisiau rhesymol
PENISARWAUN ★ Spreio tu mewn a thu allan
Ffôn: 872421 ★ Estimates am ddim
PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO



Mary Zampini de Palacio o Batagonia gyda rhai o blant Bethel. Bydd mwy o'r hanes yn y rhifyn nesaf.

CHWILOTA GLAN PADARN — DIRWESTWR? TAFARNWR?



Un ymateb yn unig a ddaeth i'r cais am wybodaeth ynglŷn â Glan Padarn. Diolch i Miss Mair Foulkes o Benisarwaun am roi cyfarwyddyd i mi ar sut i ddarganfod ei fedd ym mynwent Macpelah, Llandinorwig. Bûm hefyd yn chwilio ôl-rifynnau'r 'Eco', a chael hanes 'Hen Ffon fy Nain' yn rhifyn Ionawr 1977. Yn yr erthygl honno awgrymir i Glan Padarn fod yn ddirwestwr o argyhoeddiad yn ei ddyddiau cynnar, ond iddo briodi merch tafarn Clwt y Bont, ac iddo ddiweddu ei oes yn dafarnwr ar lan afon Menai.

Ar 1 Tachwedd 1876 y priododd â Mary, merch Robert y Black Horse (Black Lion yn ôl eraill), Clwt y Bont. O fewn llai na dwy flynedd roedd Mary wedi marw, yn wraig ifanc 28 mlwydd oed. Yn ôl y diweddar Barchg H. Thomas, Llannor, roeddynt yn byw yn Nhy'n y Fawnog, Dinorwig, pan fu farw Mary. Mae dyddiadur William Morris, Bron Fyddes, yn nodi mai 7 Hydref oedd dyddiad ei marwolaeth, ond ar garreg ei bedd nodir mai 31 Medi 1878 y bu farw (dyddiad nad yw'n bod!).

Yr hyn sy'n ddiddorol yw i Glan Padarn briodi am yr ail waith gydag Elizabeth, chwaer ei wraig gyntaf. Ond pryd y digwyddodd hynny? A ble bu'r ddau byw? Bu Glan Padarn farw'n ddeugain oed yn 1888, ond bu ei ail wraig fyw i gyrraedd ei 74 mlwydd oed. Fe'i claddwyd yn yr un bedd â'i gŵr a'i chwaer ym mis Awst 1928. Oes rhywun o ddarlennwyr yr 'Eco' yn cofio Elizabeth Thomas? A oedd plant o'r ail briodas hon?

Mae'r awgrym hefyd i gofianwyr a haneswyr y cyfnod ddiystyrru Glan Padarn braidd yn amheus hefyd. Ysgrifennodd Alafon englyn coffa iddo, ac fe'i naddwyd ar garreg ei fedd. Dyma'r englyn:

Awenydd teg ei wyneb — tawel oedd
Tlws ei naturioldeb;
Telorai drist alareb
A chân hoff na threchai neb.

Ac mae'r llinell hon ar waelod ei garreg fedd yn tystio nad anghofiwyd yn llwyr amdano: 'Cyfodwyd y gofeb hon gan gyfeillion ac edmygwyr y bardd'.

Y MUDIAD DIRWEST

Yn y cyfnod pan ysgrifennai Glan Padarn ei gerddi dirwest, roedd amryw o fudiadau yn hybu'r achos

hwn yn yr ardal. Y Rechabiaid oedd un mudiad, ond yn ddiweddar, deuthum ar draws cofnod am garfan arall, sef Byddin y Rhuban Glas. Ym mis Ebrill 1882 yng Nghapel Llanrug, ymunodd 259 o bobl â'r Fyddin hon, ac ychydig ddyddiau'n ddiweddarach daeth 360 o bobl Llanberis i'w rhengoedd. Gwisgo'r Rhuban Glas oedd yr arwydd fod yr aelodau'n ddirwestwyr. Beth ddigwyddodd i'r mudiad tybed?

TYMOR YMWELWYR

Tra'n chwilio hanes Byddin y Rhuban Glas, deuthum ar draws dau gofnod yn ymwneud â dyfodiad ymwelwyr i'r ardal yn y flwyddyn 1882.

Ar ddiwedd Ebrill y flwyddyn honno cafwyd tywydd eithriadol o braf, ac ar fore Sadwrn olaf y mis clywyd y gog yn canu ar gopa'r Wyddfa. Ond erbyn y pnawn hwnnw, daeth newid tywydd sydyn iawn, gyda chawodydd trwm o eira. Erbyn y bore Sul roedd mynyddoedd Eryri i gyd dan eira a'r gog wedi ei dychryn o'r ardal!

Erbyn Mehefin o'r un flwyddyn roedd sgysions trên yn cyrraedd Llanberis o wahanol rannau o Ogledd Lloegr. Dyma hyn ddywedwyd yn *Yr Herald Cymraeg* am un ohonynt:

'Disgwyli'r tair excursion o Blackburn yn cynnwys 2100 o bobl. Os byddant yn debyg i'r rhai arferol o ddod o Loegr, bydd pawb yma ar lawr waith yn ystod y dydd yn cadw gwyliadwriaeth ar ei feddiannau.'

'Sgwn i faint o bobl Blackburn sy'n parhau i ddod i'r ardal ar eu gwyliau?

Anfonwch unrhyw wybodaeth neu unrhyw gwestiwn am hanes yr ardal i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (Ffôn: 673515).

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Gwellhad buan: Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Mair Williams, Elidir View, wedi iddi dderbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Llongyfarchiadau:

— i Medi a Gareth, 12 Dôl Afon, ar enedigaeth mab, Dewi Rhys, brawd bach i Kerry;

— i Neil Rowlands, Glan'rafon a Sandra Jones, Dôl Afon, Llangefni, ar eu dyweddiad.

Diolchiadau:

Dymuna Neil a Sandra ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu dyweddiad.

Dymuna Mr a Mrs J. C. Jones, 21 Dôl Afon, ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn tra bu'r ddau yn Ysbyty Gwynedd ac wedi iddynt ddod adref.

Dymuna Mrs Mair Williams, Elidir View, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau — pell ac agos — am y cardiau a'r anrhegion, a phob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd tra y bu yn Ysbyty Gwynedd.

Cymanfa'r Annibynwyr: Ddydd Sul, Ebrill 18, cynhaliwyd Cymanfa Ganu Dosbarth Cwm-y-glo yng Nghapel Jerusalem, Llanberis. Cymerwyd y rhan agoriadol yng ngwasanaeth y plant yn y prynhawn gan Mrs Grace Roberts ac yn dilyn eitemau ar lafar ac ar gân gan frawd a chwaer ifanc iawn o Ysgol Sul Jerusalem; ac yna eitemau gan blant Ysgolion Sul Bosra, Capel Coch ac Ebeneser. Diolchwyd i'r plant ac i'r athrawon am waith canmoladwy iawn ac fe groesawyd yn gynnes iawn blant Ysgol Sul Capel Coch, gan y llywydd y Parchg Gwynfor Williams. Yr arweinydd oedd Mr Robert Lloyd gyda Mrs Lola Evans wrth yr organ.

Yng nghyfarfod yr hwyr cymerwyd y rhan agoriadol gan Mrs Nansi Jones. Cymerwyd rhan gan Gôl Alawon y Mynydd a Chôr Meibion Dyffryn Peris. Yr arweinydd oedd Mrs Jane Williams, Carmel, a'r organyddes oedd Mrs Hefina Jones. Diolchodd Mr Robert Lloyd i bawb am eu cyfraniad i lwyddiant y Gymanfa, ac fe gyhoeddwyd y Fendith gan y Parchg John Pritchard. **Ysgol Gymuned Cwm-y-glo:** Yn ystod gwyliau'r Pasg ganwyd dau fabi bach yn y pentref. Llongyfarchiadau i Mrs Rhian Jones, yr ofalwraig, ar ddod yn nain i Dewi Rhys, Dôl Afon. Mae Karrah Williams,

Bl. 3 wrth ei bodd gan fod ganddi chwaer fach arall erbyn hyn. Llongyfarchiadau i'r ddau deulu.

Enillwyd Clwb yr Ysgol am fis Mawrth gan Mrs J. Pritchard, Brynrefail. Aeth yr ail wobwr i Mrs A. Williams, Llanrug.

Carai plant Bl. 6 ddiolch o galon i Mrs Carys Jones, Ysgol Brynrefail, am drefnu eu hymwelïad â'r ysgol ddiwedd y tymor. Diolch i'r Prifathro a'r plant am eu croeso iddynt. Yn anffodus, oherwydd y fflw, colodd rhai y cyfle hwn — ond fe ddaw cyfle arall yn hwyrach y tymor hwn.

Treuliodd plant Bl. 3, 4 a 5 fore difyr iawn yn Amgueddfa Lachi y Gilfach Ddu yn Llanberis gyda Chwmni Bara Llwyd. Mwynhawyd y profiad o gamu'n ôl i'r gorffennol ac ymuno yn y cyflwyniad.

Carem, fel ysgol, ddiolch yn fawr i Mr Ron Roberts (tad Twm a Branwen) am redeg yn Marathon Llundain ar Ebrill 18fed. Dymuniad Mr Roberts oedd rhannu yr arian nodedig rhwng Uned Gofal Arbennig i Fabanod yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor, ac Ysgol Cwm-y-glo. Os nad ydych eisoes wedi nodd Mr Roberts ac yn dymuno cyfrannu, mae modd gwneud hynny drwy gysylltu â'r ysgol.

Diolch hefyd i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am drefnu y Bingo ac am yr holl roddion a gyfrannwyd fel gwobrau raffl. Yn fwy na dim diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r noson.

**Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri**

am brisiau rhesymol

**ELWYN
PRITCHARD**
Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun — Gwener
10.00 — 3.30
I gysylltu tu allan i'r oriau
hyn ffoniwch
**Llanberis 870922
neu Bangor 351427**

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



**SIOP GREFFTAU
CAFFI**

CANOLFAN GARDD

ANTUR WAUNFAWR

Ar agor bob dydd Sadwrn o 10 a.m. — 3 p.m.
o Fai 1af

Galwch i weld ein cynnyrch arbennig

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Cydyndelmlo: Cydyndelmlo'n â Mrs Nally Lovatt, Brwynydd wedi colli modryb oedranus yn Aberystwyth yn ystod mis Ebrill.

Ymgrych Heno (S4C): Derbyniwyd £110 yn Swyddfa'r Post, Llanrug, tuag at Gronfa Ymchwil y Galon Syr Geraint Evans. Diolch i bawb a gyfranodd.

Noson Goffi: Cynhelir Noson Goffi a Sleidiau yn Hafan Elan ar nos lau, Mai 6ed, a'r elw tuag at Eglwys Sant Mihangel, Llanrug.

Newyddion o'r Ysgol Gynradd: Daeth Mr Iwan Roberts, Lleifior, i roi sgwrs am hanes datblygiad y pentref at Blwyddyn 6 a dangos hen luniau hynod o ddiddorol yn cofnodi newidiadau a fu yn adeiladau'r fro. Cafodd y plant bleser yn cymharu hen luniau a lluniau diweddar o lecynnau amlwg y pentref.

Croeso i hen ddisgybl o'r Ysgol yn ôl atom, Iwan Llŷr Roberts, sy'n dilyn cwrs nysio yn Ysbyty Gwynedd. Bydd Iwan yn treulio pythef yn ein plith fel rhan o'i gwrs Cynllun 2000.

Bu nifer o blant yr Ysgol yn llwyddiannus mewn gwahanol feysydd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i:

Eryl Jordan a oedd yn aelod o dîm Gymnasteg a gafodd y wobwr gyntaf ym Mhencampwriaeth Gymnasteg Cymru yng Nghaerdydd;

Nia Williams am ennill gwobr Karate yn Nolgarrwg;

Hefin Roberts a gafodd 3ydd yn Nhwrnameint Tennis Gwynedd o dan 12 oed.

Da iawn chwi blant.

Yr Urdd: Llongyfarchiad i bawb o blant yr Urdd wnaeth gystadlu mor dda yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor.

Wedi diwrnod maith o gystadlu cafwyd llwyddiant eto eleni i fynd i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe/Lliw: Parti Dawns dan 10 oed; Parti Dawns dan 12 oed; Dawns Stepio Unigol dan 12 oed: 1, Elin Dafydd; 2, Sian Green.

Byddwn yn cynnal Tombola yn yr Ysgol ar nos Wener, Mai 7fed, am 6.30 o'r gloch i godi arian tuag at gost y daith i'r Eisteddfod. Croeso cynnes i bawb.

Enillwyr Clwb Cant am fis Ebrill: 1, Mathew Thomas, Ty'n Rhos; 2, Patricia Jones, 26 Glanffynnon; 3, Sionwyn Morris, Fernlea; 4, C. Roberts, Gwylfa; 5, Meryl Lloyd Williams, 5 Minffordd.

Beth am ymaelodi y flwyddyn nesaf? Gallwch ymaelodi gyda'r clwb drwy dalu £12 am flwyddyn o Mai 1993 hyd Ebrill 1994 neu £1 ar ddechrau pob mis. Arian i'r Ysgol erbyn Mai 7fed, os gwelwch yn dda.

Colled: Bu farw Miss Annie Parry yn dawel yn ei chartref yn 14 Hafan Elan ar Chwefror 27, yn 98 mlwydd oed. Roedd yn wraig dawel a diddorol ei sgwrs am yr hen awser. Yn enedigol o Ddeiniolen, aeth i fyw i Lerpwl at ei chwaer pan oedd tua pymtheg oed. Cafodd waith mewn siop i ddysgu gwneud hetiau. Tra yn Lerpwl roedd yn aelod o gapel Chatham Street. Adeg yr Ail Ryfel Byd fe fomiwyd eu cartref. Ar ôl dod yn ôl i Gymru, bu'n gweithio mewn dwy siop ddillad ym Mangor, a bu'n byw yn Llanrug a Deiniolen cyn ymgartrefu yn Hafan Elan. Roedd yn hoff o adrodd yr hanes am feddyg yng Nghlwt-y-bont yn dweud bod y T.B. arni, ond meddyg yn Lerpwl wedyn yn dweud nad oedd y fath beth arni. Bu ei hangladd yn



Partion dawnsio gwerin dan 10 oed, uchod; a dan 12 oed, isod; yr Ysgol fydd yn teithio i Abertawe ddiwedd Mai i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.



Amlogfa Bangor ar Fawrth 4ydd. Ychydig iawn o deulu oedd ganddi, ond bu gofal Mrs Dilys Jones a chymorth Marian a fu'n byw gyda hi am flynyddoedd, yn fodd i'w chadw yn ei chartref hyd y diwedd.

Diolch: Dymuna'r Parchedig Gwilym Roberts a Nansi Roberts ddiolch i bawb am eu caredigrwydd mawr a'u cymorth tra'r oedd Gwilym yn yr ysbyty'n ddiweddar.

Plaid Cymru: Bydd yr Helfa Drysor sydd i'w chynnal ar nos Fercher, Mai 12, yn cael ei threfnu gan Carys a

Rolant Wynne, Fron Hyfryd Uchaf. Byddwn yn cychwyn oddi allan i Ysgol Brynrefail am 6.30 o'r gloch.

Enwau ac archebion bwyd i'r trefnwyr (678629) erbyn nos Lun, 10fed Mai. Ceir dewis o gyw-iâr, brithyll, pastai cig eidion, taglietelle llysieuol (£4). Y dewis i blant yw selsig, bysedd pysgod neu nygets cyw-iâr.

Croeso cynnes i aelodau a ffrindiau. Enillwyr Clwb Cant am fis Ebrill yw 1, Hefin Jones, Pant Mwyn; 2, Goronwy Hughes, Eithinog.

AKA SECURITY SERVICE
Y Dderwen
Parc y Wern
BETHEL
Ffôn:(0286)
670608



Rhag i hwn alw, galwch chi ni rŵan
★ Larwms
★ Goleuadau
★ Cloeau
★ Pob math o waith diogelwch

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen, Bodafon (Waunfawr 799)

Cyhoeddwyd rhai o'r pennillion canlynol, o waith Glenys Roberts Llangeferri, yn rhifyn Chwefror. Mae'n bleser gennym gyhoeddi'r gerdd yn llawn y mis yma.

CAPEL CEUNANT - COF PLENTYNDOD

Wrth ddychwel i'r hen ardal
A chwydro llwybrau'r fro,
Am gapel bach Y Ceunant
Daw bore oes i'm co';
Blynnyddoedd fy mhientyndod gynt
Yn dod yn ôl ar bedwyr gwynt.

Yr annwyl Ifor Rowlands
Fu'n gychwyn ar fy nhalth,
A'r hoff flaenoraid ffyddlon
Mor ddiwyd wrth y gwaith
Sef, Ifan Parry, Tom a Hugh,
A Robat hefyd, un o'r criw.

Llais Owie Jones a glywaf
A'i gân mewn moddion grâs,
A nodau per Kate Williams
Ddi-fwlch o'r 'Fuchas Las';
A ni'r pryd hynny'n deulu mawr
Yn help i lenwi seddau'r llawr.

Pan ddeuai'r gaeaf heibio
Câi'r oll o'r plantos mân
Eu trol i mewn i'r festri
Yn glyd o flaen y tân;
A phawb yn daclus yno sydd
I ddangos parch i'r seithfed dydd.

Ond, newid ddaeth i Gymru
A'r fro lle'm ganed i;
A chwith cael cwrdd Y Ceunant
Yng nghwmni dau neu dri;
Mae'n anodd credu, yn nawdeg dau
Ein bod ni yma'n awr i'w gau.

Rhol clo ar ddrws Y Ceunant
A chau y gorlan glyd
Sy'n ffordd ryfeddol, gredaf,
I ymladd creulon fyd;
Heb Dduw, heb ddim, a dweud y gwir
Rwy'n ofni'r flwyddyn nawdeg tri.

Er gwaethaf y gwrthgilio,
Cyflwynwn Carys fach
I'r Hwn a roes i'w rhieni
Un annwyl, fywlog, lach;
Ei bywyd fo yn atgof tllws
O'r Ceunant hoff, er cau o'i ddrws.

Wrth roddi ein bendithion
I'r bedydd olaf a hwn,
Fe fydd er cof a hwn
Ar hyd ei hoed, mi wn;
Ai hi a fydd rhyw ddydd i ddod
'N all-agor drws i dalu clod?

Oi diolch am bob athro
Fu yma i'r plant yn ffrind,
A diolch am bob Cristion
Fu'n cadw'r cwrdd i fynd;
Cânt huno'n dawel dan y gro -
Heb weld y Capel Bach yng nghlo.

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLLEN
Llanberis 870484

★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Gemi • Bedyddio • Iloed • Priodas

☼ **Poblysur arbennig?** ☼
☼ **Anrheg unigryw?** ☼
Beth am un o samplari

PWYTHAU CAIN

☼ Cynllunir pob samplari yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

☼ Hefyd gwniadwaith o bob math gwnneud dillod, newidiadau, ffenni, a.g.y.b.

☼ Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd • Darnau o farddoniaeth

NEWYDDION YSGOL BRYNREFAIL

Yr Adran Saesneg

Ymweliad Mr John Owen: Ar fore Gwener, Mawrth 12fed, daeth Mr John Owen, Penrhyn Bach, Crawia, Llanrug, a'i gi tywys, Owi, i siarad â disgyblion 80. Cafwyd sgwrs ddifyr ganddo ac atebodd lu o gwestiynau am ei fywyd gydag Owi ac yng ngeiriau un o'r plant, 'Aeth yr orig yn gyflym iawn'.

Yr Adran Gymraeg

Ymweliad John Ogwen: Ar fore lau, Mawrth 18fed, daeth John Ogwen i'r adran i drafod nofel Caradog Prichard, 'Un Nos Ola Leuad'. Mae hon yn nofel osod ar gyfer y papur Lefel-A. Mwynhaodd y chweched y sgwrs a'r sylwadau ar gefndir y nofel a oedd yn werthfawr iawn.

Theatr Bara Caws: Trefnwyd i flwyddyn 9 wyllo cynhyrchiad diweddaraf y cwmni yma, sef 'Chwilen yn Fy Mhen' yn neuadd yr Ysgol ar nos Fercher, Mawrth 17eg. **Siwan:** Yn ddiweddar bu 6(1) a 6(2) yn Theatr y Brifysgol, Bangor, yn gwyllo perfformiad gan fyfyrwyr y Brifysgol o'r ddrama 'Siwan' gan Saunders Lewis.

Shirley Valentine: Ar nos Fawrth, Mawrth 9fed, teithiodd tros 80 o ddisgyblion Bl. 10, 11 a 12 i Theatr Gwynedd i wyllo cynhyrchiad arbennig o'r ddrama 'Shirley Valentine' gan Theatr Gorllewin Morgannwg.

DYFAN SIÔN YN ADRODD HANES CYSTADLEUAETH DEFNYDDWYR IFANC CYMRU

Ar yr ail o Fawrth bu tîm o Ysgol Brynrefail, o dan ofal Mrs Carys Evans, yn cynrychioli Gwynedd yng Nghystadleuaeth Defnyddwyr Ifanc Cymru a gynhaliwyd yn Abertawe.

Ar ôl taith flinedig cafodd aelodau'r tîm, sef Marc a Tudor Jones o flwyddyn 13, a Jerome Moran, Michael Moran a Dyfan Siôn o flwyddyn 12, ymlacio mewn gwesty yng nghwmni'r timau eraill cyn cystadlu y bore canlynol.

Roedd wyth tîm yn yr ornest. Pob un wedi ennill yr hawl i gynrychioli eu sir. Rhannwyd y timau i ddwy rownd gyn-derfynol gyda phedwar tîm yn cystadlu ym mhob rownd, ac yna'r ddau dim uchaf eu marciau yn mynd drwedd i'r rownd derfynol.

Enillodd Ysgol Brynrefail y rownd gyn-derfynol gyntaf yn gyfforddus a daeth Gorllewin Morgannwg yn ail gan ymuno â thîm Gwynedd yn y rownd derfynol.

Roedd yr ail rownd gyn-derfynol yn llawer agosach fodd bynnag, gyda Chlwyd yn fuddugol a Dyfed yn ail.

Ail ddechreuwyd y cystadleuaeth yn y prynhawn gyda'r pedwar tîm yma yn y rownd derfynol.

Roedd hi'n ornest glòs, ond oherwydd eu cyflymdra ar y botymau, a'u gallu wrth gwrs, enillodd y bechyn o Frynrefail gan dderbyn canmoliaeth uchel gan y cwis-feistr Nic Parry (cyd-gyflwynydd 'Sgorio'). Clwyd — pencampwr y llynedd — ddaeth yn ail.

Caiff tîm Ysgol Brynrefail y cyfle yn awr i gystadlu yng Nghwis Defnyddwyr Ifanc Prydain a gynhelir yng Nghaeredin ym mis Gorffennaf. Pob hwyl iddynt yno.

OSIAN DAFYDD EVANS (51) YN ADOLYGU'R DDRA 'SHIRLEY VALENTINE' gan Willey Russell

Ar y nawfed o Fawrth bu disgyblion blwyddyn pedwar a phump Ysgol Brynrefail yn Theatr Gwynedd yn gwyllo 'Shirley Valentine', comedi rymus a sensitif gan Willey Russell. Cyfieithwyd o'r Saesneg i'r Gymraeg gan Manon Eames a mynnodd Willey Russell fod y cyfieithiad yn dilyn y fersiwn wreiddiol yn fanwl iawn. Enillodd y ddrama wobwr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1992. Eisoes gwyliais y ffilm 'Shirley Valentine' ar y teledu ac felly roeddwn yn gyfarwydd â'r stori. Roeddwn am ddarganfod os oedd perfformiad Cwmni Theatr Gorllewin Morgannwg, dan ofal Tim, y cyfarwyddwr, cystal â pherfformiad y BBC. Cafwyd nifer o actorion yn actio cymeriadau ym mherfformiad y BBC, ond dim ond un actores oedd yn y fersiwn Gymraeg, sef Sara Harris-Davies. Hi oedd yn esgidiau y cymeriad hoffus Shirley Valentine ac er y cyfeiriai at y cymeriadau eraill a rhoi disgrifiadau manwl ohonynt i ni, ni ymddangosodd yr un enaid arall ar y llwyfan.

Thema'r ddrama oedd hanes bywyd undonnog dynes yn ei phedwardegau, yn hel atgofion am ei phlentyndod, llencyndod, blynyddoedd gorau ei phriodas a magu'r plant sydd bellach wedi ymadael â'r nyth. Bellach nid yw'r fflam honno yn ei phriodas fel ac y bu — erbyn hyn prin fod ei gŵr a hithau'n gallu cydfyw. Pan fydd Shirley ar ei phen ei hun yn y gegin siaradai â'r wal, dyna sut y cawn ni'r negeseuon. Mae cyfaill Shirely, sef Jane, yn ceisio ei hannog i fynd ar wyliau i Corfu gyda hi. Nid yw Shirley yn gant y cant os yw am fynd ond mae Roslyn Richards a Gillian drws nesaf yn rhoi hyder iddi fynd.

Pan gyrhaedda Corfu mae Jane yn gadael Shirley gan ei bod wedi cyfarfod dyn ar yr awyren. Mae Shirley wrth ei bodd yn siarad â chraig ar y traeth y tro yma yn lle siarad â wal y gegin. Hoffai ei chwmi ei hunan ar lan y môr. Cyfarfu Shirley â Costas, sef Groegwr. Câl Shirely berthynas rhywiol â Chostas. Pan ddaw'n adeg i fynd adref penderfyna Shirley nad yw am adael Corfu. Cafodd flas ar fywyd gwell yno felly arhosodd yno i weithio yng nghaffi Costas. Mae gŵr Shirley eisiau hi'n ôl ym Mangor ac ar ddiwedd y ddrama daw i Corfu i'w nhôl. Mae Shirley am iddo yntau gael blas ar fywyd gwell hefyd.

Dim ond un actores oedd yn y perfformiad ond cyfeiriai at gymeriadau eraill. Cawn disgrifiadau llawn ohonynt. Y ddau ddyn y cyfeiria Shirley atynt yw ei gŵr a Costas. Roedd Shirley a'i gŵr yn methu cydfyw â'u gilydd heb ddadlau a gwêl Shirley bechod fod priodas mor dda wedi colli ei gwefr. Pan gyfarfu Shirley â Costas yn Corfu sylwodd mai dyn caredig iawn oedd o, ond ar ôl un peth yn unig. Roedd Shirley yn hoff iawn ohono ond nid oedd yn ei garu. Cyfarfu Shirley â phar o Fanceinion. Pâr annifyr ac anniddorol oeddynt. Cyfaill pennaf Shirley oedd Jane a pherswadiodd Shirley i fynd i Corfu. Cyfaill o'r ysgol nad oedd Shirley yn gweld llygad yn lygad â hi oedd Roslyn Richards. Arferai Roslyn fod yn ferch barchus a pheniog iawn ac roedd Shirley yn genfigennus iawn ohoni, ond pan ail

gyfarfu'r ddwy darganfu Shirley mai 'escort' oedd Roslyn yn awr, h.y. dynes yn tywys dynion o amgylch y dinasoedd mawr gan gysgu â hwy yn y nos. Gillian oedd y ddynes drws nesaf ym Mangor. Roedd gan Gillian air câs am Shirley o hyd ond pan ddarganfu am antur Shirley mae'n ei hedmygu. Sonia Shirley am ei phlant, sef Caren a Brian. Atgofio magu'r ddau a wna Shirley ond sonia am Caren yn dod gartref a barnu bwriad Shirley o fynd i Corfu. Gwnaeth hyn iddi ddechrau ail ystyried.

Ni welwyd cymeriadau'n gwrthdaro oherwydd mai ond un actores oedd yn y perfformiad, ond sonia Shirley amdani'n dadlau â'i gŵr ac â Gillian.

Nid oes tensiwn yn y perfformiad. Pan sonia Shirley am ei phrofiadau trist gwna Sara Harris-Davies i'w hun grio a daw lwmp i'n gyddfau. Ond pan mae Shirley yn hapus mae'r gynulleidfa yn hapus hefyd.

Uchafbwynt y ddrama i mi oedd ei therfyn pan mae Shirley yn cymharu ei bywyd newydd â'i bywyd ym Mangor. Nid yw'n gyffrous ond gwna i ni gysidro fod bywyd ond gwerth byw os yw'n cael ei fyw yn llawn.

Roedd safon actio Sara Harris-Davies yn ardderchog. Roeddwn i yn eistedd yng nghefn y theatr ac hyd yn oed yn y fan honno fe glywid ei llais yn glir. Hyd yn oed ar ddiwedd y perfformiad nid oedd ei llais i'w glywed yn flinedig. Llwyddai i wneud y te, cadw'r nwyddau a phacio ei phethau gan edrych ar y gynulleidfa. Yn ystod y darnau trist roedd Sara Harris-Davies yn llwyddo i wneud llais trist. Bu hyn yn effeithiol gan wneud i'r gynulleidfa fod yn drist. Hefyd roedd y ffordd y dywedai bethau digri a wna'i i'r gynulleidfa chwerthin. Llwyddai i newid mŵd y ddrama.

Buaswn wedi gwneud ychydig o newidiadau yn y set yn y ddwy olygfa. Buaswn wedi gwneud set y

gegin yn llawer mwy llwm gan mai ym Mangor llwm y dilynai Shirley fywyd llwm. Buaswn wedi gwneud y golau'n fwy llachar ar y lliain glas golau (yr awyr) yn Corfu, felly teimlai'n hapusach a brafiach yno o'i gymharu â'r gegin ym Mangor. Buaswn yn gwneud y gegin yn fwy llwm a Corfu'n fwy llachar er mwyn gwneud i'r ddau wrthgyferbynnu. Rhaid oedd canmol set y gegin gan ei fod mor debyg i gegin gyffredin mewn tŷ pâr canol oed. I'w wneud yn fwy realistig roedd y ffrwr sgloodion yn allyrru arogl sgloodion i'r theatr. Roedd y graig yn realistig iawn yn Corfu er nad oedd y llawr yn ddim byd tebyg i dywod ar draeth. Nid oedd y blanced las tywyll yn effeithiol iawn fel môr. Roedd y blanced oleuach yn effeithiol fel awyr olau Groeg ond nid oedd y cylch oren o gwbl fel yr haul gan fod y cylch yn dywyllach na'r awyr (planced).


Y rheswm i mi fwyhau cryfderau 'Shirley Valentine' oedd am ei bod yn defnyddio iaith y bobol gyffredin gan ddefnyddio geiriau Saesneg a rheg — felly nid oedd yn llwyddiant i'r bobol barchus a ddisgwyliai iaith Gymraeg lân a pharchus. Yn y ffilm roedd Shirley yn byw yn Lerpwl ond nid felly yn y perfformiad hwn, ym Mangor yr oedd yn byw a phan soniai am Rachub fel twll o le, a'r Felinheli fel lle bonheddig, roedd y gynulleidfa'n cytuno. Roedd sylwadau sarcastig Shirley'n gwneud i'r gynulleidfa chwerthin. Ond prif gryfder y ddrama oedd ei bod yn gwneud i bobol oedd yn credu fod eu bywydau'n undonnog sylweddoli fod angen magu hyder i wneud rhywbeth cyffrous a gwahanol, a fuasai'n gweddnewid eu bywydau. Rwy'n credu mai'r prif reswm fod 'Shirley Valentine' mor llwyddiannus oedd am ei bod wedi bod ar y teledu, a bod pobol eisiau gweld y fersiwn Gymraeg a oedd i mi yn gryfach na'r un Saesneg.



Cafwyd benthyg y llun yma o dîm codi pwysau Llanberis gan Owen (ef yw'r ail o'r chwith yn y rhes ganol). Pwy yw'r aelodau? Pryd y tynnwyd y llun? Beth oedd yr achlysur? Cysylltwch â'r golygyddion gyda'r wybodaeth.

BARRY'S GLASS

- am Ffenestri a Drysau UPVC • Estimates am ddim
- Gwydr a gwydro o bob maint • Ffenestri Gwydr Dwbl
- Gwasanaeth bordio a gwydro 24 awr.



Y PRISIAU GORAU — GARANTID!

CAMELOT, PENISARWAUN
871144 (Dydd) 871774 (nos)

ECO'R IFANC


Fedrwch chi gysylltu'r bobl enwog wrth y chwaraeon cywir.



VIV
RICHARDS



IAN
WOOSNAM




GWYNDAF EVANS



COLIN
JACKSON



ANDRE AGASI



IAN RUSH

CYSTADLEUAETH

Ysgrifenwch stori am y gwylliau haf y basech chi'n hoffi eu cael eleni. Anfonwch y stori at *Eco'r Wyddfa*, Cilfynydd, Llanberis, erbyn Mai 14.

Cofiwch roi eich enw, a'ch cyfeiriad a'ch oedran.

JÔCS

Pa dref yw'r fwyaf swnllyd?

BANG-OR.

Be gewch chi wrth ffonio 666?

Plismon ar ei ben i lawr.

Lle yng Nghymru mae Wyn yn byw?

TY-WYN.

Be mae llyfant yn ei yfed?

Crawc-o-Cola.


Cwsmer: Fydd yr omlet yn hir?

Gweinydd: Na, fe fydd yn grwn.

Athrawes: Beth yw tri a tri?

Huw: Dwy goeden Saesneg.

Bydd siroedd Cymru yn cael eu newid yn fuan. Fedrwch chi nabod y siroedd sy gennym ar hyn o bryd?



Yn fy marn i . . .

gan Huw 'Bobs' Pritchard

Athro ym Mhorthaethwy yw **HUW PRITCHARD**, sy'n byw ym Methel. Mae 'Bobs' yn gyfarwydd fel canwr pop a chyflwynydd teledu a radio. Roedd yn cystadlu efo'i grŵp Byd Newydd yng nghystadlaeth Cân i Gymru yn ddiweddar. Yn wahanol i'w arwr, Ryan Giggs, mae Bobs yn cael dweud ei ddweud wrth y Wasg!

RANT *1: Rwy'n ifanc! Rwy'n hoff o gerddoriaeth roc a rol. Dydy Elwyn Jones ddim yn hoffi roc a rol. Mewn erthygl diweddar yn *Sothach* ysgrifennodd y dylai ieuencid Cymru fod yn unigolion a throi eu cefnau ar y llygredd 'pop'.

Wel, ar ôl pum cyfres lwyddiannus iawn o 'Fideo 9' does gan yr ieuencid ddim cyfle i weld grŵpie fatha Neu Unrhyw Declyn Arall, Gorky's Zygotic Mynci a A5 ar eu sgrins teledu. Mae 'Fideo 9' wedi cael y 'chop' ond mae S4C yn rhoi 'Y Sŵn' yn ei le. Mae 'poblogrwydd' a 'safon' wedi trechu celfyddyd a mynegiant 'y ffordd arall'. Hip hip hwre! I werthfawrogi seiniau real Cymru'r 90au bydd rhaid teithio i Tsecoslofacia neu be bynnag di enw'r wlad ar hyn o bryd. Mae angen gofalu nad ym Mhrâg yn unig fydd llwyfan Ffa Coffi Pawb. Ysgrifennwch at Meirion Davies yn S4C i ofyn pahan fod 'ffigyrâu gwyllo' amheus wedi lladd 'Fideo 9'. Hwyl fawr heulwen . . .

. . . ond yn y cyfamer, yn y byd go iawn eisteddais yn fy nghar truenus a oedd yr ola mewn rhes o 20. Roedd gosod goleuadau traffig ar Bont Britania yn gam mor greadigol wedi'r cwbl! Digon o amser i'r llafurlu wrando ar Hywel Gwynfryn / Simon Mayo yn ceisio ein difyrru. Rhuodd y gwynt. Dirgrynodd y ceir. Ochneidiodd y gyrrwyr. Ochneidiais eto wrth wrando ar y newyddion rhyng-wladol — a minne eiliadau ynghynt yn cwyno am oleuadau traffig mor ddrwg! Rargian fawr pryd ydw i'n mynd i bostio'r £10 a'r ffurflen o'r *Observer* i noddii plentyn yn Cambodia? Dwi'n dal heb wneud a dyma fi rwan yn sgwennu amdano fo yn y blincin Adlais Wyddfa! Get a grip Pritchard. Sloth!

RANT *1(b): Un canlyniad o'r holl oedi uchod oedd y ffenomenon poblogaidd hynny a elwir yn 'syllu yn nrych y car a thwtio'ch gwallt'. Os ydych chi fel fi yn dechre moeli yna peidiwch a phoeni. Ma' 'na bethe trychinebus yn yr hen fyd 'ma ond dyw profi eich bo' chi'n 'fireil' ddim yn un ohonyn nhw! Byddwch yn falch o'ch moelni! Ymunwch â'r crwsâd i gael gwared o agweddau

moeliaethol yn ein cymdeithas gul a cheidwadol. Ymlaen at gymuned oddefgar a rhyddfrydol! Nawr meddyliwch am y 'receding hairline' yna ac adroddwch y geiriau canlynol at y drych a'r gyrrwr/wraig y tu ôl ichi: 'Rydw i yn fireil. Rydw i'n ifanc. Rydw i'n falch o fod yn foell!'

RANT *2: Addysg. Testun diddorol iawn. Ydy o'n addas ar gyfer y rant Bobsaidd hon? Yn syml, nacdi. Un gair sydd eisiau. Cywai. O.K. 'ta, dau air. Cywair ieithyddol. Beth yw iaith ein plant ar yr iard? Wel, mae o'n llawn crap Americanaidd wrth gwrs. Dilewch 'cywair ieithyddol' a rhowch 'cydbwysedd ieithyddol' yn ei le. Na, dwi ddim yn gwybod yr ateb chwaith. Buse siarad a sgwsio mewn unrhyw iaith yn ddechre da. Lefel 5! Cwricwlwm neu Street Fighter 10?

***3:** Garddio. Fel y mae'n hysbys i bawb ym Methel sy'n ddigon busneslyd / cymdeithasol i sylwi, nid wyf yn medru adeiladu 'rockery'. Oes gynnoch chi unrhyw dips?



Llun gan Martin Roberts, Tregarth.

***4:** Ryan Giggs. 'Fe stopiodd trên y post, dan orchymyn Ronnie Biggs ond ffeindiwch chi neb i stopio roced Ryan Giggs.' Darogan 1991'n troi'n realaeth 1993.

***5:** Melinau Gwynt. Mae unrhyw beth sy'n rhwystro cancr yn iawn gen i. Nath o ddim niwed i Mick Channon chwaith. Cardiff City v. Wrecsam (x2) Pêl-droed enillodd bois.

Cyflwynwyd a chyflawnwyd y rant uchod gan Mr Bobs Pritchard, amser te dydd Mercher, Ebrill 21. Rhoddwyd imi 'run taliad ariannol ond cafwyd dihangfa pleserus o'r holl rwtsh sy'n fy nhrafferthu i fel arfer. Cariad yw'r unig ateb, bois sori, hogia. Rhaid imi fynd i olchi'r llestri. Hwyl fawr heulwen . . .

Cwmni'r Frân Wen yn 'Edrych ar ein Cynefin'

Bu Cwmni'r Frân Wen ar daith unwith yn rhagor o amgylch ysgolion cynradd Gwynedd gyda'r prosiect 'Yn dy Law' ar gyfer disgyblion 10-11 oed.

Bwriad y prosiect hwn oedd codi ymwybyddiaeth plant ysgolion cynradd Gwynedd ynglŷn â'u cynefin a'u bro. Roedd hwn yn brosiect arloesol yn hanes y Cwmni gan ei bod yn brosiect diwrnod ac yn gyfuniad o berfformiad theatrig a gweithdai symud, ysgrifennu a chelf. Roedd y prosiect yn cwmpasu nifer o wahanol agweddau o'r celfyddydau a sawl maes o fewn y Cwricwlwm.

Roedd y perfformiad theatrig yn llawn o storïau a delweddau lliwgar i sbarduno'r plant i feddwl am eu lle arbennig nhw o fewn eu cynefin neu yn eu byd dychmygol. Mae plant y dyddiau yma yn gorfod mynd i'r ysgol ond amser maith yn ôl roedd plant yn cael eu cadw adref o'r ysgol gan eu rhieni er mwyn iddynt weithio ar y tir. Dyna oedd hanes Meri Ifans, y caed ei hanes yn y prosiect 'Yn dy Law'. Hel cerrig fyddai hi o fore gwyn tan nos ond un diwrnod roedd wedi cael llond bol ac fe ddihangodd yn ôl i'r tŷ. Yno roedd ei nain, ac yn hytrach na'i dwrdio a'i hanfon yn ôl i'r cael anfonodd hi Meri i fyny i'r mynydd i nôl llinyn gan Wil Waliau. Ar ei thaith drwy'r pentref tua'r mynydd daw Meri Ifans ar draws amrywiol gymeriadau sy'n ceisio esbonio ystyr enw'r pentref 'Pwllmaenllaw' — pawb a'i stori ddifyr ryfedd ynglŷn â'r pwll, y maen a'r llaw. Wrth fynd ar y daith yma mae Meri yn dysgu llawer am ei hamgylchfyd, a llawer hefyd amdani hi ei hun.

Yn dilyn y perfformiad cafwyd cyfres o weithdai a oedd yn ysgogiad pellach i'r disgyblion i ddatblygu'r syniadau.

Dyfeisiwyd 'Yn dy Law' gan aelodau'r Cwmni, sef Gillian Ogden (Cyfarwyddwraig), Manon Prysor, Owen Trefere, Rhiannon Williams (actorion). Adeiladwyd a chynlluniwyd y et gan Iwan Stanley Jones (Rheolwr Cynrychiadau) ac fe baratowyd pecyn gwaith i gyd-fynd â'r prosiect gan Shirley Owen (Swyddog Cyswllt Ysgolion).

Roedd y prosiect ar daith hyd Ebrill 2, ac fe fyddai'r Cwmni erbyn hynny wedi perfformio unwaith yn nalgylch pob ysgol uwchradd ac wedi rhannu eu profiadau gyda disgyblion o 46 o wahanol ysgolion.

ANTUR PADARN

yn cyflwyno

DROS BEN LLESTRI

NOSON FFRAETH A HWYLIOG YNG NGHWMNI

DYFAN ROBERTS • EIRUG WYN

MYRDDIN AP DAFYDD ac eraill

gyda

TECWYN IFAN A'R BAND

NOS WENER, 28 MAI 1993

YNG NGWESTY DOLBADARN, LLANBERIS

am 8 o'r gloch

Mynediad: £5

Tocynnau ar gael drwy ffonio Robin Jones ar (0248) 670140

Yr elw tuag at ANTUR PADARN

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Trefniadau Blodau Sych
a Ffres yn ôl eich gofyn
Alwyn a Sarah Jones

RACCA PENISARWAUN

- ★ Danfon blodau i ysbytai a chartrefi henoed
- ★ Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau
- ★ Blodau ar gyfer angladdau
- ★ Stoc o flodau ffres



Galwch neu ffoniwch

870605

am fanylion

Gair gan Delyth . . .

Euogrwydd yn gafael ynof y dydd o'r blaen. Pam? Wel am i mi beidio a sgwennu cyhyd atoch yng Nghymru fach a finna wedi addo cryn amser yn ôl bellach i adrodd hanes fy nghrafals yn U.D.A. Felly ffwrdd â ni.

Taith hynod o ddiflas o Singapore i L.A. ond fy nghyd-deithwraig, sef athrawes o'r Iseldiroedd, a finna yn ymuno â 42 arall mewn gwesty o fewn tafliad carreg i Wlad Disney. Roedd diwrnod cyfan o'n blaen cyn cychwyn ar y trip, felly dyma ymweld â Hollywood ac Universal Studios. Cael fy newis o'r gynulleidfa i gymryd rhan mewn cynhyrchiad ffug o 'Star Trek' a chael fy ngwisgo fel Cling On, sef un o'r cymeriadau drwg. Fe roddwyd tâp fideo o'r cynhyrchiad i ni 'actorion' wedyn, a rhyfedd iawn oedd gweld fy hun ar y sgrîn efo Capten Kirk a'i griw.

Cychwyn ar ein taith 'Wild Western' efo cwmni Contiki am saith bore trannoeth, er mwyn cyrraedd San Diego yn gynnar yn y prynhawn. Cael pnawn hynod braf yn ymweld â'r Sŵ Fôr enwog, yn ogystal â chael gweld sioe Shamu, y morfil mawr.

Ar ôl te, cerdded dros y border o wlad gyfoethog yr Unol Daleithiau i ymweld â Mecsico dlawd. Cael amser i ymweld â thref Tijuana er mwyn cael blasu tequila neu ddau (neu dri?!)

Trist iawn oedd gweld plant bach yn canu, rhai efo'r gitâr, er mwyn i ni roi ychydig o arian mân yn eu pocedi. Teimlad nad anghofiaf byth oedd y dewis oedd gen i, o allu ymweld ag un wlad ac yna cael cerdded allan unrhyw bryd, a'r bobl dlawd yma yn eistedd ar ochr y ffordd wrth y border yn crio am eu bod heb y dewis, ac eisiau gadael eu gwlad dlawd am fywyd gwell yn yr Unol Daleithiau.

Diwrnod 'Dolig, a gadael San Diego dlws a theithio am Phoenix yn Arizona, gan adael arfordir y Môr Tawel a theithio trwy anialwch Anza-Borrego ac i lawr yr 'Imperial Valley'. Cyrraedd Phoenix yn hwyr y prynhawn a chael cinio/swper Nadolig gwerth chweil (ond nid hanner cystal â chinio Nadolig mam wrth reswm).

Diddorol oedd cael sgwrs efo Hywel Gwynfryn ar y dydd arbennig hwn a chael pwl o hiraeth wedyn wrth feddwl am bawb gartref yn yr hen wlad.

Dydd San Steffa, a theithio i ganol anialwch Arizona gan aros i dynnu lluniau wrth y Cactws Saguaro.

Ymlaen wedyn am Sedona. Yn ystod y prynhawn, teithio drwy goedwig Cenedlaethol Coconio mewn jip i ymweld â'r Mynyddoedd Coch ac yna i fyny Oak Creek Canyon, cyn cyrraedd y Grand Canyon ei hun erbyn machlud haul, gyda'r eira yn blanced dew o'n cwmpas.

Y diwrnod canlynol, trip mewn hofrennydd er mwyn cael gweld holl ryfeddodau'r Canyon ac yna i lawr i'w ganol, a chyfarfod yr Indiaid Havasupai. Taith ar gefn ceffyl wedyn lawr i waelod y Canyon lle mae'r afon Colorado yn llifo. Diwrnod arbennig iawn, ac roeddwn i'n ffodus iawn o gael eistedd yn y sedd flaen wrth ochr y peilot.

Gadael y Canyon ar ôl deuddydd a theithio tuag at fywyd lliwgar Las Vegas ond cyn cyrraedd, aros am ginio wrth Argae Hoover. Gwirioni wrth weld 'Nadolig Llawen' wedi ei sgwennu'n fawr ar un o ffenestri'r lle bwyta, ac esbonio ystyr y ddau air wrth un neu ddau o'm cyd-deithwyr.

Croesi'r border o Arizona i'r dalaith gamblo, sef Nevada, ac aros mewn gwesty Casino yng nghanol Vegas. Taith o amgylch y dre cyn ymweld â sioe fyw 'Splash' — GWYCHI!. Ymweld â rhai o'r casinos enwog y dydd canlynol, e.e. The Golden Nugget, ac yna taith mewn limosîn gyda'r nos, a chael potel o siampyr tra'n cael ein tywys o amgylch rhyfeddodau'r dre gan sioffer bach del.

Wedi deuddydd o gamblo gwyllt, ymlaen â ni am Barc Cenedlaethol Yosemite. Taith o 450 milltir trwy Anialwch Majave a Dyffryn San Joaquin ond egwyl gyntaf mewn hen dref o'r enw Calico Ghost Town.

Cyrraedd Bass Lake erbyn gyda'r nos a'r eira yn dew o'n cwmpas unwaith eto a chael aros mewn cabannau pren. Cychwyn bore wedyn am y Parc Cenedlaethol a rhyfeddu at y golygfeydd godidog. Cael amser da yn sgelfrio rhew yn yr awyr agored a thanllwyth o dân yn llosgi wrth ymyl y llyn er mwyn cael twymiad bach ar ôl gwlychu wrth ddisgyn mor aml ar y rhew! Yn ôl i'r cabannau pren erbyn gyda'r nos, a chael parti i ddathlu ei bod yn nos Galan.

Y cyntaf o Ionawr, a dyma



Delyth yng nghwmni un o'r Indiaid Hauasupau yng nghanol y Grand Canyon.

gychwyn unwaith eto ar ein taith on y tro yma, gadael y coed a'r eira a theithio am San Francisco. Bendigedig (os ca'i ddefnyddio hoff air Sulwyn Tomos) — dyna'r gair perffaith i ddisgrifio'r 'San Ffran'.

Roedd ymweld â charchar Alcatraz yn brofiad anhygoel, a theithio o amgylch wedyn mewn tram er mwyn cael ymweld â Thŵr Coit a chael cerdded lawr Stryd Lombard, sef y stryd mwyaf troellog yn y byd. Treulio'r gyda'r nosau mewn clybiau jazz a chael hwyl wrth ymuno ag un grŵp Dicsi, gan i mi gael benthyg clarinet gan un o chwaraewyr y grŵp. Dwi'n gobeithio'n wir y caf gyfle arall yn y dyfodol agos i ymweld â'r dref hynod yma, gan fod angen llawer

mwyr na thridiau er mwyn cael gwerthfawrogi'r lle.

Ionawr 4ydd a gadael San Ffran er mwyn cyrraedd Santa Barbara, ond rhaid yn gyntaf oedd ymweld â thref fechan Carmel, y dref lle bu Clint Eastwood yn faer arni. Cyrraedd Monterey, sef prifddinas gyntaf California ac yna i lawr yr arfordir am Santa Barbara. Deuddydd cyfan yma, cyn cychwyn yn ôl am Los Angeles unwaith eto, gan ddiweddu'r pedwar diwrnod ar ddeg o deithio o amgylch y Gorllewin Gwyllt.

Dyna'r cyfan am rŵan, felly hwyl fawr i chi oll.

Cofion,
DELYTH

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol

Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn: 677482 (dydd)

870793 (nos)

Gwneuthurwyr ffenestri

Drysau, Grisau neu

unrhyw fath o gynnyrch

coed. Y coed meddal wedi

derbyn triniaeth arbennig i

wneud iddynt bara.

GERAINT OWEN

Gosodwr

carpedi a phob

math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr

650552

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn:

(0248) 714043

neu C'fon 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon

LLANRUG

Caernarfon 673513



Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Ebeneser a Chefnywaun: Yng nghyfarfod y chwiorydd a gynhaliwyd ar Ebrill 1af, diwrnod ffwl Ebrill, bu'r gweinidog yn trafod 'Y Ffwl yn y Beibl'. Cynhelir Sasiwn Chwiorydd y Gogledd ym Mae Colwyn ddydd Mercher, Mai 5ed. Bydd bws yn mynd yno o'r ofalaeth, a cheir y manylion gan Mrs Falmi Pritchard, Cilfynydd (Ffôn: 872390).

Bu plant yr Ysgol Sul Unedig yn cymryd rhan yng Nghymanfa Annibynwyr dosbarth Cwm-y-glo a gynhaliwyd yng nghapel Jerwsalem, Llanberis, ddydd Sul, Ebrill 18fed. Cyflwynwyd hanes yr Iesu yn tawelu'r storm.

Mae tymor y Cyfarfod Plant, a gynhelir yn festri Ebeneser, wedi dod i ben erbyn hyn a diolchir i'r plant a'u rhieni am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Diolch yn arbennig i Mr Donald Jones am ei gymorth o wythnos i wythnos.

Apêl Haematoleg a Gofal Canser Gwynedd: Nos Fawrth, 9fed o Fawrth fe gynhaliwyd dwyawr ddistaw nodedig gan Hannah Mary Roberts, Dinorwig; Lyn Wilcox; Gwen Griffith; Valmai Williams; Elan Williams; Sian Roberts; Sian Wyn Hughes; Nia Morris; Carol Ann Jones; Barbara Allen, Clwt y Bont a Nancy M. Williams a chodwyd y swm o £643.05 at yr Apêl. Hoffem ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd. Bydd Noson Goffi yn cael ei chynnal eto at yr Apêl ar nos Wener, Mai 28ain, yn y Ganolfan, pryd y gobeithir y bydd y Dr Jim

Davies, Cadeirydd yr Apêl yn bresennol i'w hagar. Gobeithir trefnu gweithgareddau pellach i chwyddo coffrau yr apêl.

Llongyfarchiadau i Jennie Lyn, Cartref, Rhes Cynfi, ar ennill y wobr gyntaf ar yr unawd pres o dan 12 oed yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor. Bydd Jennie yn mynd ymlaen yn awr i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe ym mis Mehefin. Mae Jennie wedi bod yn llwyddiannus mewn amryw o eisteddfodau yn ddiweddar. Pob lwc i ti Jennie yn Abertawe.

Dymunwn pob llwyddiant hefyd i'r grŵp offerynnol, o dan arweiniad Mr Hefin G. Jones, sydd hefyd yn cystadlu yn y Genedlaethol.

Dymuna Bill a Mari, 3 Hafod Oleu ddiolch o galon am y llu cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab, Daniel Ellis, brawd bach i Liam Joseph.

Dymuna Hugh John, 9 Maes Gwylfa, ddiolch i bawb am y caredigrwydd ddangoswyd iddo tra yn yr ysbyty.

DRAENOG

Er yr holl lwybrau swyddogol sydd yna i ben yr Wyddfa fe ddewisodd dau o Fethel fentro ar hyd eu llwybrau eu hunain — llwybr a arweiniodd i'r gors, yn llythrennol! Mae'n dda nad oedd yn rhy wyntog ar y ffordd adref gan nad oedd gan yr hwyliwr ac adeiladwr o Llyn drowsus o dan ei gôt!

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

Heliwch eich traed am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS**
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470



Bistro
43 - 45
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871278



PRYD OEDD HYN?



Dyma lun o ryw gymdeithas yn Neiniolen — ond pa gymdeithas tybed? Oes rhywun yn gwybod hanes y llun? Pryd y cafodd ei dynnu ac ym mhle?

Yr unig beth a wyddir yw bod dwy o'r gwragedd yn fyw heddiw, sef Mrs R. Williams a oedd yn byw yn y pentref ar y pryd (y bumed o'r chwith yn y rhes ôl), a Mrs Jones, gwraig y diweddar P. C. Jones, sydd yn byw yng Nghaernarfon heddiw (yr ail o'r dde yn y rhes ôl).

Oes rhywun a all roi rhagor o wybodaeth am y llun hwn? Anfonwch air atom.



THE
**SEIONT
MANOR
HOTEL**

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY



HAMDDEN

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.

Swper rhamantus i ddau

Cinio hamddenol

Sgwrs hefo ffrindiau dros baned o goffi

Brecwast, cinio neu swper busnes

Parti dathlu

Cinio Dydd Sul i'r teulu

Gwledd brodas

fythgofiadwy

Sauna, nofio, ystafell ffitrwydd

Ymlacio ym mar y llyfrgell

FFLAM ERYRI

C.O.R.G.I.

GWASANAETH A GWERTHIANT OFFER NWY

♦ TANNAU ♦ POPDAI

♦ BOILERI ♦ GWRES CANOLOG

Y cyfan wedi eu danfon a'u gosod yn broffesiynol am brisiau rhesymol gyda gwarant llawn.

Rydym yn gwerthu y cyfan sydd ar gael gan Nwy Prydain ac mae prisiau yr offer ar gael dros y ffôn gennym.

Hefyd ar eich cyfer, Tanciau L.P.G. wedi eu gosod heb ddim cost a nwy rhad i roi ynddynt.

ATGYWEIRIADAU, GWASANAETHAU BLYNYDDOL A GWASANAETH DARNAU AR FRYD

(0492) 650013

Perchennog — Geraint Fôn Williams, Glanrafon Eglwysbach, Bae Colwyn, Clwyd LL28 5UD

LLANBERIS

Gwyneth ac Elfion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn 1/4/93 — £35: G. Owen, Maes Padarn (195); £25: C. Williams, Cambrian Terrace (133); £15: A. Viney, 13 Dôl Eilian (15); £10: C. Saynor, 42 Maes Padarn (125); £5: Mrs Carverth, Olgra Terrace (169). **Diolchiadau:** Dymuna teulu'r diweddar Hawen Peris Roberts ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mor hael at Gronfa Meddygfa Waunfawr. Cyflwynwyd sic o £250 i'r Meddyg Huw Roberts er cof am Hawen.

Mae Mrs Myfanwy Jones, Llys Eryri, am ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu mor garedig ati wedi iddi ddod gartref o Ysbyty Maesdu, Llandudno. Diolch i'r meddygon yn Waunfawr a'r llawfeddyg a'r holl staff yn yr ysbyty yn Llandudno.

Dymuna Mrs Alwena Thomas, Rhos y Graig, ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu mor garedig wrthi pan fu yn Ysbyty Gwynedd, ac i'r meddygon yn Llanberis a'r llawfeddyg a'r holl staff yn Ysbyty Gwynedd.

Ysgol Feithrin: Cynhaliwyd Ras Chwaid ar fore Sadwrn, Ebrill 10fed. Roedd dros 500 o chwaid plastig yn y ras rhwng pont Afon Goch a glan y llyn. Keith Jones oedd pia'r chwaidan fuddugol a'r wobwr gyntaf o £50. Rhoddwyd y gwobrau eraill fel a ganlyn: 2, Sharon Jones, £30; 3, Mandy, 1 Lôn y Nant, £20; 4, Delyth, Tŷ Isaf, £10. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Ymchwil y Galon: Cynhaliwyd noson Charity Bingo yng Ngwesty Dolbadarn, nos Wener, Ebrill 16eg. Gwnaed elw o £367 tuag at yr elusen hon. Diolch yn fawr i bawb am eich cefnogaeth.

Y Gymdeithas Lenyddol: Mwynhaodd aelodau'r Gymdeithas swper ardderchog yn festri Capel Coch yng nghyfarfod olaf y tymor ar Ebrill 20fed. Gareth Jones oedd wedi paratoi'r swper tri chwrs ar gyfer yr aelodau a rhai o'r cyfeillion a fu'n gwasanaethu yn ystod y gaeaf. Cafwyd caneuon gan Mrs Mattie Hughes, Ann Jones, Liz Griffiths a Dilys Williams, a chan Dafydd, Gethin a Gruffudd. Roedd Mr Hugh R. Jones wedi trefnu cystadleuaeth llinell goll a brawddeg, a dyfarnodd y Prifardd Selwyn Griffith mai'r Parchg Gwynfor Williams a Mr Ralph Jones oedd yn fuddugol. Diolchwyd i

Gareth ac i bawb am eu cefnogaeth i'r Gymdeithas gan y Parchg John Pritchard.

Capel Coch: Bu plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yng Nghymanfa Annibynwyr dosbarth Cwm-y-glo a gynhaliwyd yng nghapel Jerwsalem ddydd Sul, Ebrill 18fed. Cyflwynwyd dameg y Mab Afradlon ar lafar ac ar gân. Dyma'r tro cyntaf i Ysgol Sul Capel Coch fod yn rhan o'r Gymanfa hon. Cawsom ein gwahodd i gymryd rhan gan fod plant capel Nant Peris erbyn hyn yn dod i'r Ysgol Sul yn Capel Coch. Roedd plant y ddau gapel felly yn cymryd rhan yn y cyflwyniad.

Yng nghyfarfod y chworiydd a gynhaliwyd ar Ebrill 1af, diwrnod ffwl Ebrill, bu'r gweinidog yn trafod 'Y Ffwl yn y Beibl'. Cynhelir Sasiwn Chworiydd y Gogledd ym Mae Colwyn ar ddydd Mercher, Mai 5ed. Bydd bws yn mynd yno o'r ofalaeth, a cheir manylion gan Mrs Falmi Pritchard, Cilfynydd (Ffôn: 872390).

Côr Meibion Dyffryn Peris: Unwaith eto yng nghwmni'r arbenigwr ei hun, Dafydd Iwan, cafwyd noson i'w chofio yng Ngwesty Dolbadarn. 'Roedd y lle yn orlawn ymhell cyn amser dechrau ac fe fwynhaodd pawb eu hunain wrth wrando ac ymuno yn y canu. Mae si ar led fod Aneurin am adeiladu 'extension on the extension' erbyn y tro nesaf y daw Dafydd ynol Felly sicrhewch eich tocynnau rŵan erbyn y tymor nesaf!

Trefnwyd raffl gan Roy a Ted a'r enillwyr oedd: 1, Avril Pritchard; 2, Margaret Williams; 3, Liz Griffith; 4, Catrin Lennon; 5, Valerie Griffiths; 6, Cyril Owen; 6, Lona Owen; 7, 872579; 8, Olwen Bryn; 9, Mam Sioned; 10, Mair; 11, Gwyneth Parry; 12, 870872.

Arweiniwyd a threfnwyd y noson gan Elwyn Wilson Jones gyda llawer o ddiolch iddo am ei waith.

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn: Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas yr Eglwys yn St. Padarn ar nos Iau, Ebrill 1af. Dechreuwyd fel arfer trwy weddi, dan arweiniad Mrs Nancy Jones, Taliesin. Croesawodd y llywydd, Mrs Ann Parry-Jones, Miss Mary Jones, Rhostrehwfa, i'n plith. Dangosodd Miss Jones, sydd yn gweithio gyda gwydr lliw, sleidiau o'i gwaith yn trwsio ffenestri lliw mewn amryw o gapeli, neuaddau

tref, a chartrefi teuluol, ac yn ei dull hynaws ei hun fe gafwyd noson ddifyr dros ben. Rhoddwyd y baned a'r wobwr misol gan Mrs Katie Williams a Mrs Margaret Griffiths a'r enillydd oedd Mrs Hilda Williams. Cydymdeimlwyd â theuluoedd o'r Eglwys oedd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar, ac fe ddymunwyd adferiad llwyr a buan i'r Rheithor, y Parchg P. Pritchard. Diolchwyd i bawb a gymerodd ran gan y llywydd.

Colled: Fore Sadwrn, 27 Mawrth, yn Ysbyty Gwynedd, wedi cystudd blin, bu farw William Christmas Jones, Plas Pengwaith, 3 Blaen y Ddôl gynt. Bu angladd cyhoeddus yn Eglwys St. Padarn ar ddydd Mercher, Mawrth 31ain ac fe wasanaethwyd gan yr Archddiacon Elwyn Roberts, Canon Richard Owen, Parchg Gwynfor Williams, Mr Derek Jones (Darllenydd Lleyg) a'r organydd oedd Mr Gareth Hughes Jones. Oherwydd gwaeledd roedd y Rheithor, y Parchg P. H. Pritchard yn analluog i fod yn bresennol.


Fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Nant Peris.

Dymuna John, Eirlys ac Owen Rees, Idwal a Josephine a'r teulu o Durham, ddiolch i'w ffrindiau, cymdogion a'r teulu am eu cardiau, galwadau ffôn a chymwynasau; am y blodau hyfryd a dderbyniwyd ddydd yr angladd; y rhoddion hael tuag at Plas Pengwaith a Ward Hebog Ysbyty Gwynedd; Matron a staff Plas Pengwaith am eu gofal tyner o Willie; a staff Ward Hebog Ysbyty Gwynedd. Diolchwn yn arbennig i'r Clerigwyr am eu gwasanaeth ddydd yr angladd ac i'r Rheithor y Parchg P. H. Pritchard am ei ymweliadau; ac i Myrddyn Pritchard am y trefniadau trylwyr. Diolch i'r ardalwyr am eu cydymdeimlad o golli William Christmas Jones, brawd ac ewythr annwyl.

Amgueddfa'r Gogledd: Cofiwch bod

arddangosfeydd yr Amgueddfa yn newid ddechrau mis Mai. Daw'r ardangosfa Mwyngloddiau a Chwareli Llechi Eryri i ben ar Fai 10fed, ac Arddangosfa y Samplari, a'r Sinematograffi Cynnar ar Fai 16eg.

Yr Arddangosfeydd newydd fydd: Yr Wyddfa (o Fai 1af); Crefft y Gof (o Fai 15fed) ac Ynys Enlli (o Fai 22ain).



Ysgol Dolbadarn: Bu Mr Rhys ap Elwyn yn rhedeg ym Marathon Llundain ar Ebrill 18, a chafodd ei nodd i er budd yr Ysgol. Llonyfarchwn ef yn arw ar gyflawni'r cwrs mewn 2 awr a 52 munud. Roedd pawb wrth eu bodd gweld enw Mr ap Elwyn ym mhapur y 'Times' fel un o'r 1,700 a orffennodd y ras mewn llai na 3 awr. Gorffennodd yn safle 951 allan o'r 25,000 oedd yn y ras. Llonyfarchiadau mawr iddo am ei ymdrech er mwyn cronfa'r Ysgol. **Croeso yn ôl:** Rydym yn falch bod Mrs Nan Humphreys wedi gwella'n ddigon da i ail afael yn ei gwaith. Dim gormod o weiddi 'rŵan, cofiwch, Mrs Humphreys.

DRAENOG



Roedd o wedi trio 'in earnest' i ddod allan — ond fedra fo ddim. Trydanwr a warden eglwysig o Lanberis oedd wedi mentro i

ganol Sgip i nôl hen beiriant torri gwair i'w drwsio. Ond fe aeth yn sownd yng ngwaelod y Sgip, a methu'n lân a dringo allan ohono. Bu'n gweiddi dros y lle am hydoedd, ac er clywed y sŵn, fedrai neb feddwl o ble y deuai. Fe'i gwelwyd o'r diwedd, cafwyd cadair iddo sefyll arni, a daeth allan yn ddiogel. Y tro nesaf y bydd yn mynd i Awstralia gobeithio y caiff wersi neidio — gan yr enwog gangarw hwnnw — Skippy!

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Dewis eang o Welyau Sengl a Dwbl. Dewis eang o '3 Piece Suites'. Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler' Gwaith Contract. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

WAUNFAWR 650291

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

CARTREF HENOED



Caernarfon
(0286) 674652

CARPEDI GLÂN

Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

**TEGID
PRITCHARD**
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 650291
hefyd ail-osod carpedi

THEATR FACH GORFFWYSEFA

Mae agor Theatr Fach Gorffwysfa yn Llanberis yn gam cyffrous yn hanes Cwmni Drama Llanberis. Dyna oedd byrdwn y ddau ŵr gwadd ar y noson agoriadol, ar Ebrill 5ed.

Eglurodd llywydd y noson, y Parchedig John Owen, bod traddodiad hir ac anrhydeddus i'r ddrama yn Llanberis. Cyfeiriodd at dri pheth yn neilltuol. Yn gyntaf, honnodd mai yn Llanberis y chwaraewyd y ddrama hir gyntaf yng Nghymru erioed dros gan mlynedd yn ôl erbyn hyn. Roedd rhai o'r pentref wedi ymddiddori yn y ddrama yn 70au'r ganrif ddiwethaf. Roedd teiliwr lleol, R. E. Jones (Cyngar), bodi bod yn cynnal dosbarthiadau i drafod dramâu Shakespeare; a John Owen (ap Glaslyn), o Feddgelert yn wreiddiol, yn arfer mynd a chriw o ieuencid i Lerpwl i weld dramâu. Yn sgîl y diddordeb hwn cafwyd cystadleuaeth am gyfansoddi drama yn null Shakespeare yn Eisteddfod Eryri yn 1879. Enillwyd y gystadleuaeth gan Berea Gwynfa Evans â'i ddrama 'Glyndŵr', ac yn 1880 fe berfformiwyd y ddrama honno gan gwmni a ffurfiwyd yn arbennig at hynny yn Llanberis. Yn ail, cyfeiriodd y Parchg John Owen at y ffaiht mai brodor o Lanberis oedd Cyfarwyddwr cyntaf Cwmni Theatr Cymru, Wilbert Lloyd Roberts, pan ffurfiwyd y Cwmni hwnnw yn 1965. Ac yna'n drydydd, eglurodd bod y cwmni presennol wedi ei ffurfio yn hydref 1964 fel Cymdeithas Ddrama Llanberis.

Bu'r dramodwyr Dr John Gwilym Jones a Wil Sam yn gefn i'r fenter honno, a Miss Mat Pritchard yn aelod gwerthfawr o'r Cwmni yn y blynyddoedd cynnar. Drama fer, 'Y Dyn Codi Pwysau', gan Wil Sam, oedd y ddrama gyntaf i'w pherfformio. Cafwyd drama fer arall y flwyddyn ddilynol, ac yna aed ati i berfformio drama hir bob blwyddyn wedi hynny. Roedd cael lle addas i berfformio yn problem; defnyddiwyd neuadd yr ysgol, heb lwyfan o gwbl

i ddechrau, ac yna ar lwyfan a wnaed o hen fyrddau cinio pren. Roedd Mrs Katie Williams yn un o aelodau mwyaf poblogaidd y Cwmni am flynyddoedd, ac estynwyd croeso arbennig iddi hi i'r agoriad swyddogol. Diolchodd y Parchg John Owen i'r rhai a fu'n weithgar efo'r Cwmni dros y blynyddoedd, a chyfeiriodd at gyfraniad rhai fel Gwilym Rees Parry a Bert Parry yn ogystal â'r tîm presennol sy'n cynnal y traddodiad.

Cyn dadorchuddio'r garreg sy'n nodi'r agoriad swyddogol, dywedodd Mr Dafydd Wigley y byddai'r Theatr o fudd mawr i'r pentref. Cyfeiriodd at y cyfoeth diwylliannol sy'n ffynnu yno, a'r cyfle a roddai'r Theatr i'w ddiogelu a'i barhau. Llongyfarchodd y bobl hynny a fu'n gweithio'n galed ynglŷn â'r fenter, a dywedodd bod angen cael theatr fyw a diwylliant y pentref ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Mwynhaodd y gynulleidfa berfformiad y Cwmni o'r ddrama 'Awel Dro' gan Ieuan Griffith. Cafwyd digon o hwyl a chwerthin wrth weld helyntion teulu Isaac Hughes a'i ymdrech i wared â'i broblemau ariannol wrth geisio ennill ffortiwn trwy gystadlaethau papur newydd. Cafwyd perfformiad slic a hwyliog a oedd yn ddechrau ardderchog i weithgareddau'r Theatr newydd. Dymunir yn dda i'r Cwmni wrth iddynt fynd â'r ddrama ar daith yn ystod yr wythnosau nesaf, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at y cynhyrchiad nesaf.

Aelodau'r cast oedd Bert Parry, Ann Pritchard, Rhiannon Pritchard, Helen Sharp, Gareth Morris, Eifion Roberts, John Thomas, Lowri Williams a Gwyn Williams. Anfonwyd dymuniadau gorau am wellhâd i aelodau arall o'r Cwmni, Pat Thomas.



Aelodau o Gwmni Drama Llanberis gyda rhai o'u gwesteion ar noson agor Theatr Gorffwysfa.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Enillwyr Clwb 300 am fis Mawrth — £40: Mr Alun Williams, 13 Bro Waun; £25: Mr W. M. Catt, Awel y Môr; £10: Mr Haydn Jones, Rhandirmwyn. **Croeso Adref:** Bu Nan Wyn allan yn yr India am dri mis yn gweithio gyda Eglwys Bresbyteraidd Migaram, yn gwneud yr un gwaith ac y mae hi'n ei wneud yma yng ngogledd Cymru, sef gweithiwr datblygu gwaith ieuencid gyda'r Eglwys Bresbyteraidd. Yn ystod ei arhosiad yno cyfarfu â'r Fam Teresa, ac mae Nan wedi addo ysgrifennu'r hanes inni erbyn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Anrhegu: Mewn seremoni arbennig yn ystod gwasanaeth yng Nghapel Bethel, fe gyflwynwyd allweddellau trydan i Miss Eirlys Jones, Maelor, ar achlysur ei hymddeoliad wedi cyfnod maith o wasanaeth fel organyddes y capel.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Wendy a Gary, Penclip, ar enedigaeth merch fach, Tammy Lynette, chwaer i Kara ac wyres i Geraint a Barbara Griffith, Bro Waun.

Daeth Elfed a Janice Jones, Bryn Menai, yn daid a nain am y tro cyntaf — ganwyd merch fach, Ffion Wyn, i'w mherch Heather a'i phriod Alan, yng Nghwm-y-glo. Llongyfarchiadau i chi.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion at Mrs C. Jones a Mr Glyn Williams, Stad Tref Eilian. Mae'r ddau yn Ysbyty Eryri ar hyn o bryd.

Croeso adref: Croesawn Mr Dafydd Morris, 2 Bryn Golau; Mr Evan Hughes, 3 Tref Eilian; Peter Greasley, Penberth; Mrs Ann Addison, Lloches; a Mrs M. Williams, Henllan, adref o'r ysbyty gan ddymuno adferiad iechyd llwyr a buan iddynt. **Cydymdeimlo:** Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Buddug Rowlands, Tref Wen, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, y diweddar Mr Elwyn Rowlands.

Dathlu Pen-blwydd Priodas: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Lloyd, Bryn Awelon, ar ddathlu eu Priodas Rhuddem yn ddiweddar.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Cheymoon O'Reilly, Pant y Cerrig, ar ddathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

Clwb Bowlio Mat Byr: Cafodd y Clwb flwyddyn lwyddiannus eleni.

Daethant yn ail, i Llanerchymedd, yng nghyngair Gwynedd.

Cynhaliwyd pencampwriaeth Sir Gwynedd yn ddiweddar a dyma ganlyniadau aelodau'r Clwb — Unigol: Carys Jones, 4 (a'r ferch orau); Parau: Alfie Jones ag Emyr Evans, 2; Triawdau: Sion Jones, Alfie Jones ac Emyr Evans, 4; Pedwarawdau: Carys Jones, Pearl Williams, Elfyn Griffith ac Eric Williams, 2.

Yn ystod y flwyddyn cynrychiolodd y canlynol y Sir mewn cystadlaethau rhwng y sioedd: Hawie Edwards, Sion Jones, Eric Williams, Emyr Evans, Carys Jones a Pearl Williams.

Adran yr Urdd: Erbyn hyn mae'r cyfarfodydd wythnos wedi gorffen dros yr haf. Ar Fawrth 24, daeth Joy Glyn i roi noson o gemau i'r plant ac i gloi'r tymor aethom draw i Benisarwaun i ddringo'r 'Bunker Climbing Wall'. Daeth nifer o ddau i'n helpu y noson honno. Diolch yn fawr iddynt a gobeithio bod eu cefnau nhw ddim gwaeth ar ôl dal y rhaffau cyhyd i'r plant gael dringo.

Ar ôl cau pen y mwddwl daeth y newyddion bod y gân actol yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mae 'na edrych ymlaen garw am y trip i lawr i'r de ac yn ystod yr wythnosau nesa' byddwn yn brys iawn yn codi arian tuag at y costau teithio.

Anfonwn ein dymuniadau gorau fel Adran i Llinos Cadwaladr sydd yn symud i fyw i Ddolgellau cyn bo hir. Mae Llinos wedi bod yn aelod ffyddlon a gweithgar o'r pwyllgor am flynyddoedd lawer. Dymunwn pob hapusrwydd iddi hi a'r teulu yn eu cartref newydd.

Y Gymdeithas Lenyddol: Bydd trip y Gymdeithas ar nos Fawrth, Mehefin 8. Bwriedir ymweld ac Amgueddfa Lloyd George, a mannau cysylltiedig eraill yn Llanystumdwy, gan gychwyn o'r Waunfawr rhwng 5 a 5.30 y noson honno. Ar ddiwedd y daith ceir pryd o fwyd mewn gwesty rhywle yn Eifionydd. Enwau y rhai sy'n bwriadu dod ar y trip i Stanley Williams, Cefn Coed, neu Rol Williams, Ardwyn, ar unwaith. Mwy o fanylion yn nes ymlaen, ond noder y dyddiad.

RHEOLAU THEATR FACH GORFFWYSEFA

1. Rhaid gwneud pob cais am ddefnyddio neu logi'r Theatr, yr ystafelloedd a'r cyfleusterau mewn ysgrifen yn GYMRAEG i Ysgrifennydd Pwyllgor y Theatr, gan nodi'r dyddiad, yr amser a'r union gyfleusterau sydd eu hangen.

2. Rhaid i'r llogwr dalu'r tâl llogi ymlaen llaw.

3. Os digwydd i'r llogwr dorri'r cytundeb, bydd gan Bwyllgor y Theatr y dewis llwyr o dalu'r cyfan neu ran o'r tâl llogi yn ôl fel y gwel yn dda. Ni fydd gan y llogwr yr hawl awtomatig i ad-daliad.

4. Bydd yn ofynnol i'r ymwelwyr barchu'r adeilad ac i'r llogwr ei adael mewn cyflwr taclus.

5. Nid yw Pwyllgor y Theatr na'r Ymddiriedolwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am eiddo'r ymwelwyr a gaiff ei golli neu ei niweidio.

6. Rhaid i'r llogwr dalu am unrhyw ddifrod a achosir i'r adeiladwaith neu i unrhyw offer neu gelfi oddi mewn i'r Theatr, gan gynnwys, os bydd angen, gostau eu hadfer i'w cyflwr gwreiddiol.

7. Rhaid cyflwyno unrhyw gŵyn gan y llogwr mewn ysgrifen yn GYMRAEG i Ysgrifennydd Pwyllgor y Theatr er mwyn archwiliad.

8. Gwaherddir y llogwr rhag defnyddio'r offer sydd ar gael yn yr ystafelloedd ategol, yn gynnwys y gegin,

heb iddo gael caniatâd penodol Pwyllgor y Theatr.

9. Ceidw Pwyllgor y Theatr, ac Ymddiriedolwyr y Theatr, yr hawl i wrthod caniatâu i unrhyw berson neu bersonau ddod i mewn i'r Theatr neu i unrhyw ran o'r adeilad.

10. Caniateir awr o amwer i glirio ar ôl diwedd pob gweithgaredd.

11. Bydd y Neuadd yn cau am 11.00 yr hwyr.

12. Ni chaniateir llogi'r Neuadd gan unrhyw berson o dan ddeunaw oed.

13. Ni chaniateir llogi'r Neuadd ar unrhyw ddiwrnod Gŵyl.

14. Ni chaniateir ysmygu mewn unrhyw ran o'r adeilad.

15. Ni chaniateir dod ag alcohol i mewn i'r adeilad.

16. Ni chaniateir hapchwarae o unrhyw fath, gan gynnwys gwerthu neu dynnu raffl.

17. Yng nghyd-destun y Rheolau hyn, golyga 'y llogwr' hefyd y Corff neu'r Mudiad neu'r Gymdeithas y gosodwyd y Theatr iddo/iddi ac aelodau ohono / ohoni.

18. Ceidw Pwyllgor y Theatr a'r Ymddiriedolwyr yr hawl i addasu neu i newid y rheolau fel y gwel yn dda o dro i dro.

Bert Parry (Ysgrifennydd Pwyllgor y Theatr), Sycharth, Preswylfa, Llaneris.

'Un funud fach . . .'

Dangosodd cyflafan Waco bod yna gyltiau crefyddol peryglus dros ben i'w cael o hyd. Mae yna gannoedd o gyltiau yng ngwledydd Prydain: rhai yn denu'r cannoedd a rhai y dau neu dri. Nid oes gan bob un o'r gyltiau hyn eu harfau a'u bwledi: diolch byth, mae'n debyg bod David Koresh yn y lleiafrif o ran hynny. Ond mae nhw'n dal yn beryglus.

Pam bod y gyltiau'n beryglus? Oes gennym ni hawl i ddweud eu bod wedi deall pethau'n anghywir ac yn camarwain eu dilynwyd? Ystyriwn rai ffeithiau am y gyltiau.

Yr arweinydd sy'n bwysig o fewn cwl. Gair yr arweinydd sy'n cyfrif. Hwnnw sy'n gallu esbonio'r Beibl, hwnnw sy'n dweud be ddylai a be all ei ddilynwyd ei ddweud. **Os yw arweinydd crefyddol yn cael mwy o sylw na'r Arglwydd Iesu Grist, mae rhywbeth mawr o'i le.**


Ond wrth gwrs, yn aml iawn mae'r arweinydd yn honni mai fo ydi Iesu Grist ei hun. Mae ei ddilynwyd yn ei ddilyn gan gredu hynny amdano. **Pan ddaw Iesu Grist yn ôl i'r byd, bydd pawb yn gwybod ei fod wedi dod, ac nid llond dwrn sy'n perthyn i gwl arbennig.**

Mae'r gyltiau yn seilio eu dysgeidiaeth ar rai o'r darnau mwyaf anodd i'w deall yn y Beibl. **Fe ddylem geisio deall y Beibl i gyd, ond wrth esbonio darnau anodd y Beibl, mae'r gyltiau yn aml yn gwadu pethau sy'n gwbl glir mewn rhannau eraill ohono.**

Mae'r gyltiau yn amlwg yn caethiwo pobol: fel nad oes ryddid i bobol wneud eu meddwl drostynt eu hunain. Mae'r arweinydd yn rheoli'r cyfan, gan fynnu yn aml eiddo ac arian ei ddilynwyd, a'u rhwystro rhag cael unrhyw berthynas â ffrindiau a theulu. **Mor wahanol yw hyn i'r rhyddid y mae Iesu Grist yn ei gynnig.**

Mae'r Arglwydd Iesu Grist yn cynnig bywyd a rhyddid a llawenydd i ni. Credwn hynny, a chyhoeddwn hynny, a dangoswn hynny yn hyderus fel na fydd angen i bobol geisio cysur a gobaith gau gan bobol fel David Koresh druan.

JOHN PRITCHARD



Am eich holl anghenion dodrefn

- ★ Dresel
- ★ Byrddau
- ★ Cadeiriau
- ★ Unedau Cegin
- ★ Dodrefn Ystall Wely a.y.b.

oll wedi eu gwneud i ofynion yr unigolyn ...

J. W. ROBERTS
Ffôn: 675646
neu 676268

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Urdd Adran Bentref: Daeth gweithgareddau wythnosol yr Urdd i ben ar nos Fercher, Mawrth 31, gyda Taith Gerdded yng ngofal Mr Leslie Larsen. Mwynhaodd pawb eu hunain ac fe roedd blas ar y cŵn poeth a'r oren, a baratowyd yn Neuadd yr Ysgol wedi daith. Wedi'r gwledda cafwyd gêm bêl-droed gyda Dylan Price. Diolchir i bawb am rhoi clo arbennig o dda i dymor mor llwyddiannus.

Bydd Noson Mabolgampau yn cael ei threfnu yn y man.

Ysgol Sul Bosra: Roedd naws arbennig i'r Gymanfa yng Nghapel Jerusalem, Llanberis, ar Sul, Ebrill 18fed. Unwaith eto fe wnaeth y plant eu gwaith yn ardderchog ac fe fwynhasant wrando ar blant Ysgolion Sul Undebol Ebeneser Deiniol a Chapel Coch, Llanberis. Yr un modd yng Nghapel y Methodistiaid yn Hiracl, Bangor, stori'r Samariad Trugarog neu'r Dyn Diarth Da roddodd glo i'r Gymanfa gyda'r neges eglur i — 'ewch a gwnewch chwithau'r un modd'.

Trefnu trip fydd y orchwyl nesaf a llwyr gytunir ein bod yn ei haeddu. **Gwellhad:** Y mae nifer o'r pentrefwyr wedi derbyn triniaethau yn yr ysbyty yn ddiweddar a dymunir adferiad iechyd buan i Henry Jones; Ceirion Williams, Bryntirion; Mrs Beti Roberts a Mrs Eluned Porter.

Dathlu Pen-blwydd yn 18, 21 a 80 oed: Llongyfarchiadau a phob bendith i'r dyfodol i Dyfed Jones, Bryntirion, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar Ebrill 14eg.

Dathlodd Berwyn Paterson ei ben-blwydd yn 21ain ar Ebrill 16eg ac fe ddymunir pob llwyddiant iddo yntau.

Ar Fawrth 26ain dathlodd Mrs Elen Williams, 2 Bryntirion ei phen-blwydd yn 80 oed. Anfonir cyfarchion pen-blwydd yn 80 oed hefyd i Mrs Beti Evans, Llys y Gwynt. Pob bendith i'r ddwy ohonoch.

Diolch: Dymuna Dyfed ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 18 oed.

Yr un modd dymuna Mrs Elen Williams ddiolch i bawb am bob arwydd o garedigrwydd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

Colli Anwyllaid: Yn y rhifyn diwethaf syfrdanwyd y pentref â marwolaeth di-rybudd Mr Clifford Richardson, a'r

mis hwn fe frawychwyd yr ardal trwy farwolaeth annisgwyl Mr Orwig Pritchard, 10 Llys y Gwynt. Anfonir ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Blodwen Pritchard a'i chwaer Mrs J. Williams, Cae Corniog, a'r teulu oll.

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Elen Williams, 2 Bryntirion, ar farwolaeth perthynas ifanc iawn iddi o Faesgeirchen.

Wedi cystudd fe fu farw brawd i Mrs Avril Williams, Careb, Bryn Eglwys, a chydymdeimlir yn ddwn iawn â chwithau a'r teulu oll o golli un mor ifanc ac un mor annwyl.

Yn dawel yn Ysbyty Bryn Seiont bu farw'r wraig fonhoddig Mrs Nesta Jones, Llys y Gwynt gynt. Estynnir ein cydymdeimlad dyfnaf i'r teulu oll.

Diolch: Dymuna Mrs Brenda Richardson, Jonathan a Ken, Llys Helyg, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth lem a sydyn o golli priod annwyl a thad gofalus. Diolchir i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, llythyrau, galwadau ffôn, blodau a'r rhoddion hael tuag at Fedydgyfa Waunfawr a Llanrug.

Dymuna Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, a Mrs J. Williams, Cae Corniog, ddiolch yn ddiffuant i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli'r diweddar Mr Orwig Pritchard. Diolch am y rhoddion o £250 tuag at Ysbyty Gwynedd.

All-agor Siop Gron: Croeso cynnes i Mike a Barbara, perchenogion newydd Siop Gron. Gobeithio y byddwch yn hapus a llwyddiannus yn eich menter.

Cronfa Haematoleg a Chymorth Cancr Gwynedd: Taer erfynir am eich presenoldeb yn yr Ystafell Gymunedol ar nos Fercher, Mai 5, am 7.30 o'r gloch, i sefydlu pwyllgor ar gyfer yr apêl.

Cyfeillion yr Ysgol: Cafwyd Noson Goffi llwyddiannus iawn yn Neuadd yr Ysgol ar nos lau, Mawrth 25ain. Trefnwyd amrywiol stondinau a thynwyd y Raffl Fawr. Gwnaed elw o £475 tuag at Gronfa'r Cyfeillion. Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb a fu'n gyfrifol am wneud y noson yn un mor llwyddiannus. Fe aiff yr elw at offerynnau cerdd yr Ysgol.

Ysgol Gymuned Penisarwaun: Ychydig cyn cau am wyliu'r Pasg fe drefnwyd Ffair Lyfrau Cymraeg a Saesneg yn Neuadd yr Ysgol i gydfynd â'r Noson Goffi a drefnwyd gan y Cyfeillion. Bu'n noson arbennig o dda, gyda nifer fawr o lyfrau yn cael eu gwerthu ar y noson.

Derbyniodd y rhai ym Mlwyddyn 6 a fydd yn symud i Ysgol Brynrefail ym mis Medi, wahoddiad i dreulio diwrnod yno yn ddiweddar. Y syniad yw fod y plant yn cael cyfle i ymgyfarwyddo â'r ysgol a'i threfn cyn iddynt drosglwyddo yno. Bu'n brofiad gwerthfawr iddynt, a diolchir ar eu rhan i staff Ysgol Brynrefail am estyn croeso iddynt.

Yr un diwrnod â'r ymweliad ag Ysgol Brynrefail aeth pawb arall o'r dosbarth hynaf i ymweld â'r Gilfach Ddu. Taith Trwy Amser oedd yr ymweliad i ddysgu am amodau gwaith y chwarelwyr yng nghyfnod

SUL Y BLODAU

Blodau parch
ar gerrig gwynion,
haul a glaw a gwynt.
Adnod syml
wedi'i cherffio
i gofio'r dyddiau gynt.

Pererindod
Sul y Blodau
I Landdeiniolen draw;
Blodau parch
dan wenau'r heulwen,
— nes delo'r gwynt a'r glaw.

SELWYN GRIFFITH

y Streic Fawr. Gan fod yr ymweliad yn weithdy hefyd fe gafodd y plant gyfle i wrando ar ddadleuon y chwarelwyr a'r cyflogwyr.

Pwyllgor Neuadd: Fe dynnwyd Clwb Cant am fis Mawrth yn yr Ysgol a'r enillwyr oedd — Gwen Roberts, Weirglodd Goch; Bedwyr Ifans, Sycharth a Mrs Gwyneth Jones, 17 Bryntirion.

Trefnir Raffl Fawr ar gyfer y misoedd nesaf i'r thynnu ar Sadwrn y Carnifal ym mis Gorffennaf. Bydd tocynnau ar werth gan aelodau'r pwyllgor am 10c y tocyn neu 50c am lyfr o docynnau.

Eisteddfod Bentref — Mehefin 25ain am 6 o'r gloch: Cynhelir yr Eisteddfod am y tro cyntaf yn y Neuadd Gymunedol. Y mae'r llwyfan eisoes wedi cyrraedd ac wedi'i garpedu'n foethus.

Cynhelir Ffair Wanwyn ar nos Wener Mai 21ain am 6.30 o'r gloch yn y Neuadd Gymunedol er budd yr Eisteddfod. Croeso cynnes i bawb. Pob lwc: Y mae'r arholiadau bondigrybyll wrth y drws! Pob dymuniad da i bob un ohonoch sy'n eistedd arholiadau ysgol neu goleg.

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Erw Wen.
Ffôn: C'fon. 3536


Capel y Pentref: Bydd y canlynol yn pregethu yn ystod y Suliau nesaf — Mai 9: Gweinidog, am 10; 16: Parchg Gareth Maelor am 2; 23: Gweinidog, am 2; 30 (Sulgwyn): E. Jones am 2; Mehefin 6: Albert Jones.

Tafarn Bryngwna: Dymunwn pob lwc i Cath Alsupp wedi iddi adael y pentref a diolchwn iddi am gyfrannu tuag at y Gymdeithas Cae Chwarae a'r bobl ifanc. Croeso yn ôl i Wally Evans a'i deulu fel tenantiaid y dafarn.

Raffl y Pentref: Enillwyr mis Ebrill oedd: 1, D. Roberts, Cefn Rhos Isaf; 2, Bill Davies, 9 Tai Glangwna; 3, Bryn Griffiths, Delfryn. Bellach mae'r aelodaeth wedi cyrraedd rhif 95. Byddai'n braf cael cant o aelodau. Ymunwch — does dim uchafswm aelodau fel unigolyn neu fel aelwyd! **Cymdeithas Cae Chwarae:** Diolch i bawb a gefnogodd yr arwerthiant cist car ym maes parcio Bryngwna ar ddydd Sadwrn y Pasg. Gobeithir cynnal un arall cyn bo hir felly peidiwch â chael gwared o unrhyw eitemau o werth! Mae'r pwyllgor wedi dosbarthu wy Pasg i bob plentyn yn y fro i'w atgoffa am y Pasg cyntaf.

Angen gohebydd: Gan fod y gohebydd presennol, Ann Fleming, wedi ail-gartrefu yn Llanberis mae angen gohebydd newydd i ofalu am newyddion pentref Nant Peris.

CROESAIR MAI




AR DRAWS

1. Anerchiad y Sul (6)
2. Taro'r bedol yn y dŵr er mwyn — (2,6)
8. — ogam (4)
10. Un o nofelau T.R.H. (6)
11. Gwasanaeth crefyddol (6)
12. Pwytho edafedd ond cofiwch dreiglo (3)
16. Gwelwyd Cenhinen Pedr arni (5)
17. Mynydd yn Eryri, heb yr 'w' o'r canol (4)
19. Llman meddai Huw Eic (5)
21. Gwaith Neville Southall (5)
22. 'Cicio gwynt mewn — llo' (5)
23. Methu (4)
26. Un sy'n byw bywyd neilltuedig (5)
28. 'Llew o beth yw — llo bach' (3)
29. Gwyddor gwylio creaduriaid adenog (6)
30. Ochr y talcen (6)
31. Ceir un ar 'y Mynydd' (4)
32. Yn tueddu i'r ochr fel Tŵr Pisa (8)
33. 'Cigfrain — yn crawcian yn y coed' (1,5)

I LAWR

1. Moch bach (6)
2. Cyfeiriad (6)
3. Pob math o wybodaeth am un testun (4)
4. Tudalennau sy'n hysbysebu (7)
5. 'Gwynt traed y —' (5)
6. 'Roeddent' hwy wedi bod (5)
8. Crist yr Hen Destament (4)
9. Iau y de (3)
12. Pridd heb y gwartheg o'r de (3)
13. Yr un cyntaf wna hyn (5)
15. Rhan o'r goler (5)
18. Dymunir un da cyn llyncu (5)
19. Ardal (3)
20. 'Nwy yn y —' (3)
21. Mae pob busnes yn falch o dderbyn un o'r rhain (5,2)
22. Cerbyd (3)
23. Cwpled cyntaf englyn (6)
24. Y creaduriaid yn 29 ar draws (4)
25. Dim cynghanedd lleisiol (6)
26. Ffrwythau (5)
27. Un sy'n crio heb reswm (5)
28. Congl gron hwyrach (3)
30. Siop enwog yn Llandudno (4)

ATEBION CROESAIR EBRILL



Nifer eto o gystadleuwyr newydd y tro hwn — yn enwedig o Fôn. Daliwch ati gyfeillion! Ond hen enillwyr yn unig oedd yn hollol gywir y tro hwn gyda'r wobwr ariannol yn mynd i Jean M. Hughes-Jones, Llys Gwilym, Pencaerau, Rhiw, Pwllheli. Mae'r enw hwn yn un hynod gyfarwydd i groeseirwyr Papurau Bro a llongyfarchwn hi ar ei champ gan ddiolch iddi, fel ag i nifer o groeseirwyr cyson, am eu dyfalbarhad a'u cefnogaeth o fis i fis.

Atebion rhifyn Mai, os gwelwch yn dda, i sylw Ifor G. Efans, Afon Goch, Deiniolen, Caernarfon, erbyn dydd Gwener, 14eg Mai, 1993. Pob llwyddiant ar y crafu pen!

Dyddiadur y Mis

MAI

2 Sul. Brynrefail: Cymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Padarn yn y Capel am 2 a 6 o'r gloch.

4 Mawrth. Deiniolen: Cyfarfod Blyneddol Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen yn Ystafell y Band am 7 o'r gloch.

5 Mercher. Penisarwaun: Sefydlu Pwyllgor Cronfa Haematoleg a Chymorth Canser — yn yr Ystafel Gymuned am 7.30 o'r gloch.

6 Iau. Llanrug: Noson Goffi er budd Eglwys Sant Mihangel, yn Hafan Elan am 7 o'r gloch.

7 Gwener. Llanrug: Tombola yn yr Ysgol Gynradd, er budd yr Urdd, am 6.30 o'r gloch.

12 Mercher. Yr Ardal: Antur Padarn yn cyflwyno 'Seiniau Padarn' yn Neuadd Ysgol Brynrefail am 7 o'r gloch. **Llanrug:** Plaid Cymru — Helfa Drysor am 6.30 o'r gloch.

16 Sul. Dinorwig: Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol yn Sardis am 2 o'r gloch.

17 Llun. Llanrug: Cyfarfod Cyhoeddus Antur Padarn yn yr Ysgol Gynradd. **Brynrefail:** Sefydliad y Merched. **Deiniolen:** Merched y Wawr — Mrs Louise Pritchard, Llanfairfechan — 'Gwaith Anghyffredin'.

19 Mercher. Waunfawr: Cyfarfod Cyhoeddus Antur Padarn yn yr Ysgol Gynradd.

21 Gwener. Penisarwaun: Ffair Wanwyn, er budd yr Eisteddfod bentref, yn y Neuadd Gymuned am 6.30 o'r gloch.

24 Llun. Deiniolen: Cyfarfod Cyhoeddus Antur Padarn yn Neuadd y Ganolfan.

25 Mawrth. Llanberis: Cyfarfod Cyhoeddus Antur Padarn yn Angorfa.

27 Iau. Brynrefail: Plygu Eco'r Wyddfa.

28 Gwener. Llanberis: Antur Padarn yn cyflwyno 'Dros Ben Llestri' yng Ngwesty Dolbadarn. **Deiniolen:** Noson Goffi, er budd Apêl Haematoleg a Chymorth Canser, yn y Ganolfan. **Yr Ardal:** Cystadleuaeth Tlws Pêl-droed yr Eco, i blant oed Ysgol Gynradd ar faes Ysgol Gynradd Llanrug am 6 o'r gloch.

RHODDION

£10: Joan ac Iorwerth Williams, Caernarfon.

£5.50: Mrs G. McCarthy, 32 Yew Bank Road, Lerpwl.

£5: Dafydd a Mona, Bethel; Mr a Mrs J. R. Jones, 49 Maes Padarn, Llanberis; Mrs J. Williams, 23 Stryd Eleanor, Caernarfon; J. Williams, Morfa Bychan; Mrs E. Williams, 2 Bryn Tirion, Penisarwaun; Mrs Brenda Richardson, Jonathan a Ken, Penisarwaun; Mr a Mrs O. Jones, Garth, Ceunant; Mr a Mrs J. E. Williams, Bishop Auckland, Durham.

£3.50: Mr P. W. Williams, Corby; Mr E. C. Rowlands, Little Sutton; Miss M. Griffith, Caerhun; Mr Owen Jones, Llangefni; Mr R. W. Roberts, Blaenau Ffestiniog; Mr Meurig Owen, Lewisham; Mr Alun T. Williams, Waunfawr.

£3: Mrs Myfanwy Jones, Llys Eryri, Llanberis; Ann Parry Hughes, Llanbedrgoch; Parchg Gwilym a Nansi Roberts, Manod, Llanrug; Hugh John, 9 Maes Gwylfa, Deiniolen.

£2: Billy a Mari, 3 Hafodoleu, Deiniolen.

£1.50: Mrs H. T. Owen, Radyr, Caerdydd.

£1: Di-enw (Llanberis).

Os oes gennych ddiddordeb mewn cychwyn MEITHRINFA yn eich ardal, cysylltwch ag Antur Padarn Robin Jones (0286) 670140

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

Wavell Roberts
CIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

CABS LLANRUG



C'fon 675951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

CHWARAEON

CYMDEITHAS CHWARAEON ARFON

Cafwyd cryn ddatblygiad yn ystod yr wythnosau diwethaf, gan sefydlu sylfaen weithredol i'r Gymdeithas. Erbyn hyn mae yna 35 o glybiau yn aelodau o'r Gymdeithas.

Llwyddwyd i ddenu oddeutu £3000 i'r coffrau o wahanol ffynonellau. Yn amlwg bydd yn rhaid trefnu sut i ddosrannu'r arian. Roedd teimlad cryf yn y pwyllgor y dylid defnyddio peth o'r arian i gefnogi chwaraewyr unigol neu glybiau sy'n ennill bri yn lleol, yn daleithiol neu yn genedlaethol. I'r perwyl hwn fe sefydlir Is-bwyllgor Cyfalaf. Pwrpas yr Is-bwyllgor fydd argymhell canllawiau ar gyfer rhannu arian y Gymdeithas fel grantiau. Ystyrir dosbarthu'r grantiau o dan bedwar pennawd, sef chwaraewyr, gweithgareddau, rheolwyr a dyfarnwyr, a hyfforddi. I gynorthwyo yr Is-bwyllgor gyda'r gwaith fe

ddanfonir holiadur i'r clybiau a mudiadau sy'n aelodau i holi ynglŷn â'u gofynion a'u gobeithion o ddatblygu eu chwaraeon yn eu cymunedau.

Caiff yr aelodau eu cyfle cyntaf i gyfarfod yn ystod y mis nesaf. Cynhelir seminar ar 'Anafiadau mewn Chwaraeon' a rhoir sylw i'r ffordd o drin yr anafiadau hynny. O gofio'r nifer mawr sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn y cylch fe ddylai'r seminar fod yn fuddiol iawn. Yn sicr mae yn faes y dylid edrych arno yn fanwl ac hefyd yn gyfle y dylai pob clwb, o unrhyw gamp, fanteisio arno.

TLWS Y MIS

I fyd y 'potsiars' yr awn ni y mis yma — ac enillydd ieuengaf y Tlws hyd yn hyn. Mae GARETH ROBERTS o Lanrug yn aelod o gymdeithas bysgota leol. Er mai 13 oed yw Gareth fe lwyddodd i ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth i rai o dan 18 oed, a gynhaliwyd ar Lyn y Dywarchen yn ddiweddar. Cipiodd hefyd y tlws am y pysgodyn trymaf, sef brithyll yr enfys 1½ pwys. Nid yw wedi datgelu os mai ei dad ynteu'r gath fwydodd y pysgodyn!



Gareth Roberts, enillydd Tlws yr Eco am fis Mai.



Huw Jones, un o hoelion wyth Clwb Snwcer Bethel yn cyflwyno Tlws Ebrill i Albert Hughes.

Y TRI CHAWR



Daeth llwyddiant i'r tri uchod yng nghystadleuaeth Cenedlaethol Judo yr Urdd yn Aberystwyth. yn y grŵp dan 34kg llwyddodd WILLIAM SALISBURY (bel oren) i gipio'r fedal

arian. Roedd IAN WYN HUGHES (belt wen, 3 streip) ac ALUN GUFFEY (belt gwyn, 2 streip) yn cystadlu yn y grŵp dan 31kg. Yn wir, roedd yn rhaid i Ian ymladd yn erbyn Alun i

benderfynu pwy oedd yn cipio'r fedal arian. Ian enillodd, felly'r efydd gafodd Alun. Mae'r tri yn aelodau o Glwb Jiwdo Caernarfon, ac yn cydnabod cyfraniad allweddol eu hyfforddwr Wyn Hughes.

PYTIAU BYRION

Bu ALUN VAUGHAN, Llanberis, yn rhedeg ym Mhencampwriaeth Trawsgwlad Ysgolion Prydain yn Llanelli yn ddiweddar. Gorffennodd y ras yn safle'r 17eg, ac ef oedd y pumed Cymro i gyrraedd gartref.

Derbynias trwy flwch y post yn ddiweddar, lun o dîm pêl-droed y CIS (yr hen Siecoslofacia) a fydd yn gwrthwynebu Cymru yng Nghwpan y Byd. Yng ngardd gwesty yn Cyprus y tynnwyd y llun a'r ffotograffydd oedd Selwyn Griffith. O'r diwedd gallwn ddatgelu pwrpas yr holl wyliau tramor — ef yw 007 yr F.A.W. Tybed a yw wedi llogi gwyliau yn yr Unol Daleithiau erbyn rowndiau

terfynol Cwpan y Byd?

Gobeithio y gwelwn luniau tipyn o gwpanau pêl-droed yn rhifyn y mis nesaf o'r Eco. Llongyfarchiadau i dîm Deiniolen ar gyrraedd rowndiau terfynol y Cwpanau Alves a Wil Evans. Erbyn i chi ddarllen hyn byddant yn rownd derfynol y Cwpan Moorings hefyd gobeithio. Ymddengys fod ennill y gyngrair y tu hwnt i'w cyrraedd, ond mae'n dymor hynod o lwyddiannus serch hynny.

Llongyfarchiadau i Lanrug ar eu perfformiad yn erbyn Llangefni yng Nghwpan Burritt. Anwaical iawn fu eu perfformiadau yn ddiweddar, ond efallai y daw Tlws ddiwedd y tymor.

Mae perfformiadau y Locos wedi gwella'n sylweddol y tymor yma, ond ni fydd tlws ar Faes Padarn eleni.

TENIS


Bellach mae canolfan tenis dan-do Arfon bron iawn â'i chwblhau. Mae'r adeilad newydd gerllaw Canolfan Hamdden Arfon. Bydd lle i bedwar cwrw sythetig yn yr adeilad cynhwysfawr. Ers rhai blynedd oedd y cyrtiau allanol yng Nghoed Helen fu canolfan hyfforddi y fwrdeistref. Yno bu Cai Fish a'r llu o ieuencid yn cyfarfod — ym mhob tywydd — i berffeithio eu techneg. Rhaid edmygu brwdfrydedd, teyrngarwch a gweledigaeth y 'ffyddloniaid'. Yn sgîl apwyntio Cai Fish yn hyfforddwr tenis y fwrdeistref fe sefydlwyd Carfan Arfon ac fe ddaeth llwyddiant o'r datblygiad hwnnw. Y penllanw wrth gwrs yw penderfyniad y Cyngor — gyda help o Ewrop — i adeiladu'r ganolfan bwrpasol.

Cynhaliwyd Pencampwriaeth Cauedig Tennis Gwynedd ar gyrtiau Coed Helen ar ddechrau mis Ebrill. Braf yw cofnodi fod cryn llwyddiant wedi dod i fro'r Eco. Y pencampwr i fechgyn o dan 18 oed oedd JOE NEALE o Benrhiw, Llanrug. Yr oedd y gêm derfynol rhwng Joe a Tom Clark yn uchafbwynt i'r tri diwrnod o gystadlu brwd. Parhaodd y gêm am ddwyawr a hanner, cyn i Joe ennill gyda sgôr o 6-7, 6-2, 10-8.

I Lanrug hefyd yr aeth y Tlws i fechgyn o dan 12 oed. MEILIR JONES, Stad Minffordd, a gipiodd y Tlws, pan gurodd Richar Ceary 6-0, 6-3. Yn y rownd gyn-derfynol roedd Meilir wedi trechu Hefin Roberts, sydd hefyd o Lanrug. Rhaid oedd i Hefin fodloni ar y fedal efydd y tro hwn. Ni fydd Hefin yn gor-boeni gan mai naw mlwydd oed ydy o, ac felly mae ganddo ddwy flynedd arall yn yr adran yma.

Yn y gystadleuaeth i ferched dan 12 oed daeth y fedal efydd i LLINOS WILLIAMS, Bethel. Roedd hwn hefyd yn berfformiad da gan fod cryn safon yn yr adran.

Llongyfarchiadau i'r pedwar ac fe edrychwn ymlaen at weld datblygiad pellach pan agorir y ganolfan tenis newydd.



Joe Neale a Meilir Jones, enillwyr ym mhencampwriaeth Tennis Gwynedd.